#FORTHEFULLTEAM
#FELUNTÎM

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

# CYNNYDD A HER WRTH DDARPARU GOFAL DIOGEL AC EFFEITHIOL 2022:

## SUT Y MAE GIG CYMRU WEDI GWEITHREDU DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016

# CYNNWYS

**ARGYMHELLION** 3

**CANFYDDIADAU** 4

**DULL** 5

**BETH YW DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016?** 6

Pam mae hyn mor bwysig? 7

**ADRAN 1 THEMÂU CENEDLAETHOL** 8

Systemau TGCh 8

Beth oedd effaith COVID-19 ar ofal diogel ac effeithiol? 9

Cynnydd i aciwtedd cleifion 11

Swyddogaeth diogelwch gritigol y rheolwr ward 12

Swyddi nyrsys cofrestredig gwag yn GIG Cymru 13

Gwariant asiantaeth 13

Cadw 14

Recriwtio rhyngwladol 16

Yr estyniad i Adran 25B 17

Nyrsio ardal 18

Wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl 19

**ADRAN 2 ADRODDIADAU BYRDDAU IECHYD** 20

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 20

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 23

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 26

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 28

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 31

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe 34

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 37

**RHESTR TALFYRIADAU** 40

**ATODIAD** 41

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â
**Policy&publicaffairs.wales@rcn.org.uk**

# ARGYMHELLION

**1** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, yn ystod y tymor seneddol hwn, ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl.

**2** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth recriwtio nyrsys rhyngwladol i ddenu nyrsys cofrestredig i Gymru a'u cynorthwyo drwy'r broses hon.

**3** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ddatblygu strategaeth gadw genedlaethol.

**4** Mae angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru neilltuo gwerth i bwysigrwydd y ffaith fod y rheolwr ward yn ychwanegol, gan ddangos y pwysigrwydd i aelodau'r cyhoedd ac o fewn y GIG. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso llwyddiant Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu a chynnig argymhellion wedi'u diweddar ar sut i rymuso'r rheolwr ward.

Mae adroddiad pob bwrdd iechyd yn cynnwys cwestiynau allweddol yr ydym wedi nodi y mae angen i fyrddau iechyd eu hateb. Bydd yr RCN yn codi hyn yn uniongyrchol gyda Phrif Weithredwyr y byrddau iechyd. **Rydym yn gobeithio y bydd Aelodau o'r Senedd (AS) yn ein helpu i wella gofal cleifion trwy ofyn y cwestiynau hyn hefyd.**

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion ar gyfer yr hyn y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud nesaf. **Rydym yn gobeithio y bydd AS yn ein helpu i wella gofal cleifion drwy annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i'r camau gweithredu hyn.**

Nid ar wardiau ysbyty penodol yn unig y mae angen lefelau staff nyrsio diogel; mae eu hangen ar draws bob lleoliad iechyd i sicrhau gofal cleifion diogel ac effeithiol. Defnyddir y 'diffyg nyrsys' honedig yn rhy aml fel esgus am beidio â gwneud mwy. Yn 2021, cafwyd 21,120 o geisiadau i astudio nyrsio yng Nghymru: derbyniwyd 1,810.[1] Ceir dros wyth o ymgeiswyr am bob lle myfyriwr nyrsio a gynigir gan brifysgol! NID oes diffyg pobl sydd eisiau bod yn nyrsys. Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y DU i ddiogelu cleifion trwy gorffori'r egwyddor o ofal diogel ac effeithiol yn y gyfraith. Mae'n rhaid i'r dull pragmatig radical hwn o flaenoriaethu'r mater pwysicaf ym maes gofal iechyd barhau.

[1] https://www.ucas.com/data-and-analysis/undergraduate-statistics-and-reports/ucas-undergraduate-releases/applicant-releases-2021/2021-cycle-applicant-figures-january-deadline

# CANFYDDIADAU

Dyma ganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn:

1 Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi gwella gofal cleifion gan arwain at adrodd llai o gwympau a briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ymhlith cleifion o ganlyniad i fethiant i gynnal lefelau staff nyrsio.

2 Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi cynyddu nifer y nyrsys ar wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B.

3 Mae'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau uwch byrddau iechyd o swyddogaeth y rheolwr ward a gwerth/pwysigrwydd crebwyll nyrsio proffesiynol. Fodd bynnag, roedd statws niferoedd ychwanegol yn anwadal ar draws byrddau iechyd a goramser.

4 Heriwyd byrddau iechyd gan seilwaith TGCh y GIG gan ei fod yn annigonol i gofnodi a oedd lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal o shifft i shifft. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol.

5 Yr her fwyaf i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yw cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio: mae llawer mwy o nyrsys yn gadael y GIG na ellir eu cyfateb â nyrsys sydd newydd gymhwyso neu nyrsys sy'n cael eu recriwtio yn rhyngwladol. Yn anffodus, ni fu unrhyw weithredu gan Lywodraeth Cymru ers ein hadroddiad diwethaf yn 2019 i fynd i'r afael a phroblemau cadw nyrsys.

6 Mae'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn ddibynnol ar recriwtio rhyngwladol i gynnal lefel ddiogel ac effeithiol o nyrsio.

7 Mae lefel aciwtedd cleifion wedi cynyddu ers 2019 sy'n golygu bod Cymru y angen mwy o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd i ofalu am gleifion.

8 Roedd COVID-19 yn her enfawr i fyrddau iechyd. Daeth niferoedd cynyddol o gleifion dibyniaeth fawr wyneb yn wyneb â lefel is o nyrsio (oherwydd salwch). Wrth i niferoedd y staff nyrsio sydd ar gael godi a gostwng, fe wnaeth y gyfres o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad nyrsio a oedd ar gael i fanteision arnynt godi a gostwng hefyd. Mae profiad COVID-19 wedi amlygu hollbwysigrwydd crebwyll proffesiynol y rheolwr ward o ran sicrhau bod y perygl i ddiogelwch cleifion cyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod y camau a gymerwyd gan fyrddau iechyd, fel sefydlu grwpiau i fonitro lefelau staffio yn feunyddiol yn ystod pandemig COVID-19 wedi cael llawer o sylw. Mae hyn i'w ganmol o'r safbwynt ei fod yn caniatáu craffu gan y cyhoedd ac yn cynyddu hyder y cyhoedd.

9 Roedd yr holl fyrddau iechyd yn barod ar gyfer estyniad Adran 25B y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio i wardiau cleifion mewnol pediatrig ar 1 Hydref 2021.

10 Mae'r holl fyrddau iechyd yn mynegi cefnogaeth i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i'r gymuned gan fod pob bwrdd iechyd yn gweithredu yn ymarferol ac yn adrodd ar egwyddorion y canllawiau staffio nyrsys ardal interim.

# DULL

Cyhoeddwyd ar adroddiad hwn gan Goleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru. Dyma'r ail adroddiad sy'n archwilio gweithrediad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2019.[2]

I lunio'r adroddiad hwn, archwiliodd yr RCN bapurau bwrdd iechyd a gyhoeddwyd rhwng mis Mai 2019 a mis Tachwedd 2021 i ddod o hyd i dystiolaeth o sut y mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn cael ei gweithredu ledled Cymru.

Ysgrifennodd Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru, ar yr holl fyrddau iechyd ym mis Mai 2021 i ofyn pa gynnydd yr oeddent yn ei wneud o ran gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Nodir ymatebion y byrddau iechyd yn yr adroddiadau.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn:

- Cynnig trosolwg o gynnydd y broses weithredu yn seiliedig ar asesiad pob bwrdd iechyd ei hun
- Cydnabod ac annog cynnydd da
- Dangos yr hyn y mae angen ei wneud o hyd i weithredu'r Ddeddf yn gyson ac yn effeithiol i ddiogelu gofal cleifion.

[2] Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, 2019. *Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Cynnydd a Her.*

# BETH YW DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016?

Daeth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Dyma ddarpariaethau allweddol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016:

| | |
|---|---|
| **Adran 25A** | cyfrifoldeb cyffredin ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddarparu lefelau staff nyrsio digonol ym mhob lleoliad, i ganiatáu amser i ofalu am gleifion gyda sensitifrwydd. |
| **Adran 25B** | yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyfrifo a chymryd camau rhesymol i gynnal y lefel staff nyrsio ar bob ward feddygol a llawfeddygol acíwt ar gyfer oedolion. Mae hefyd yn ofynnol i fyrddau iechyd hysbysu cleifion am y lefel staff nyrsio. |
| **Adran 25C** | yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull penodol i gyfrifo'r lefel staff nyrsio ar bob ward feddygol a llawfeddygol acíwt ar gyfer oedolion. O 1 Hydref 2021, cafodd hyn ei ymestyn i gynnwys wardiau cleifion mewnol ar gyfer plant. |
| **Adran 25D** | mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y dyletswyddau o dan Adrannau 25B a 25C, ac mae'n rhaid i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddilyn y canllawiau hyn. |
| **Adran 25E** | yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd adrodd eu cydymffurfiad o ran cynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B. |

Ar lefel bwrdd iechyd, adroddir gofynion y Ddeddf trwy dempled a luniwyd yn genedlaethol, sy'n caniatáu i fyrddau iechyd ddadansoddi eu gweithgareddau, eu cynnydd a'u heriau yn feirniadol. Diben y broses adrodd hon yw sicrhau bod byrddau iechyd yn cadarnhau yn gyhoeddus sut maent yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

## Pam mae hyn mor bwysig?

Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn diogelu cleifion. Mae lefelau staffio diogel yn achub bywydau. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod lefelau staff nyrsio isel wedi cynyddu marwolaethau cleifion o hyd at 26% o'u cymharu â wardiau sydd wedi'u staffio yn well.[3] Dangoswyd hefyd bod lefelau staff nyrsio diogel ac effeithiol yn lleihau aildderbyniadau, cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gwallau meddyginiaeth, cwympau a briwiau pwyso. Mae lefelau staff nyrsio diogel ac effeithiol yn golygu gwell hydradu a maetheg i gleifion a gwell cyfathrebiad â chleifion.[4]

Canfu astudiaeth o ysbytai gan Akine et al. yn 2021 bod cleifion mewn ysbytai lle'r oedd gan nyrsys gymhareb gleifion uchel o'u cymharu ag ysbytai lle'r oedd gan nyrsys gymhareb gleifion is yn fwy tebygol o ddioddef amodau niweidiol gan gynnwys siawns 41% yn uwch o farw, siawns 20% yn uwch o gael eu haildderbyn a siawns 41% o aros yn hwy.[5]

Yn ogystal â sicrhau bod digon o nyrsys, mae'r gymysgedd sgiliau iawn ymhlith staff nyrsio hefyd yn bwysig. Mae pob cynnydd o 10% i nifer y nyrsys sydd wedi'u haddysgu i lefel gradd mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% i farwolaethau cleifion.[6] Mae angen cymysgedd o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd i sicrhau tîm syn gweithio yn effeithiol.

Ymgyrchodd RCN Cymru dros Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 er mwyn diogelu gofal cleifion ac mae'n parhau i hyrwyddo'r dull hwn.

---

[3] Rafferty, A.M., Clarke, S.P., Coles, J., Ball., J. James, P., McKee, M. ac Aiken, L.H. 2006. '*Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: cross-sectional analysis survey data and discharge records'*, PubMed. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/17064706/. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[4] Rafferty et al. 2006. *'Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: cross-sectional analysis survey data and discharge records'*, PubMed. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/17064706/. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[5] Akine, L.H., Simonetti, M., Sloane, D.M., Cerón, C., Soto, P., Bravo, D., Galiano, A., Behrman, J.R., Smith, H.L., McHugh, M.D, a Lake, E.T. 2021, *'Hospital nurse staffing and patient outcomes in Chile: a multilevel cross-sectional study'*, The Lancet Global Health. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/34224669/. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[6] Griffiths, P. a Rafferty. A. 2014. *'Degree educated nurse scan reduce hospital death'*. Prifysgol Southampton. Ar gael yn: *Degree educated nurses can reduce hospital deaths* | Prifysgol Southampton. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

# ADRAN 1 **THEMÂU CENEDLAETHOL**

## Systemau TGCh

Yn unol ag Adran 25E Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o ganfyddiadau adroddiadau bob tair blynedd byrddau iechyd ar eu cydymffurfiad ag Adran 25B. Mae'r adroddiadau ar gael yn yr Atodiad.

Un o'r prif heriau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiad oedd y seilwaith TGCh annigonol yn y GIG, a oedd yn cymhlethu galluoedd byrddau iechyd i gofnodi a oedd lefelau staff nyrsio wedi cael eu cynnal o shifft i shifft. Roedd hefyd yn herio eu gallu i gofnodi data meintiol ar y camau a gymerwyd pan nad oedd lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

"Mae profiadau ymarferol dros y tair blynedd a hanner diwethaf o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn awgrymu bod angen llawer mwy o graffu a rhagwelediad ar y pwynt hwn, a bod methu â gwneud hyn wedi ei gwneud yn amhosibl i fyrddau iechyd adrodd ar y graddau y mae'r rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf."[7]

Mae'r RCN yn siomedig bod seilwaith TGCh y GIG wedi achosi her gynnar o ran cofnodi lefelau staff nyrsio a gynhelir. Fodd bynnag, mae gwaith wedi parhau i ddod o hyd i ateb.

Mae'r holl fyrddau iechyd yn nodi yn eu hadroddiadau bob tair blynedd bod pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yn ystod cyfnod adrodd 2019/2020 wedi gweithio yn rhan o'r:

Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i ddatblygu dull cyson o gasglu data meintiol yn feunyddiol (yn absenoldeb un ateb TGCh) i alluogi pob sefydliad i ddangos lefelau staff nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd.[8]

Fe wnaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gydgrynhoi contract e-amserlennu Cymru Gyfan gydag *Allocate*, sy'n golygu y byddai pob bwrdd iechyd yn defnyddio'r un system o'r diwedd.[9] Bydd y prosiect gweithredu yn cychwyn ar 1 Gorffennaf 2021.

Yn bwysig, mae gan *Allocate* fodiwl rheoli wardiau o'r enw *Safecare* y gellid ei ddefnyddio i gofnodi'r holl ddata sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, yn dilyn diwygiadau gofynnol. Bydd hyn yn gwella yn fawr y broses o gasglu data a chysondeb data ar draws y byrddau iechyd ar gyfer cyfnod adrodd 2021/2024.

Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd ar wahanol gamau o weithredu system *Allocate* am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae rhai byrddau iechyd (fel Betsi Cadwaladr) wedi bod yn defnyddio *Allocate* a *Safecare* ers nifer o flynyddoedd; fodd bynnag, roedd eraill yn defnyddio *Roster-Pro* (Caerdydd a'r Fro) ac felly nid ydynt wedi cyflawni cymaint o waith o ran gweithredu *Allocate.* Hefyd, mae byrddau iechyd wedi rhannu heriau yn ymwneud â pandemig COVID-19 a chapasiti cyfyngedig yn eu timau gwybodeg lleol sy'n arwain y gwaith cyflwyno.[10]

Er gwaethaf heriau cynnar, mae gwaith sylweddol wedi parhau i wella'r seilwaith TGCh yn y GIG yn ystod cyfnod 2019/2021. Mae cytuno ar un system e-amserlennu a gwaith parhaus i gasglu data meintiol ar lefelau staff nyrsio yn arwyddocaol.

---

[7] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf

[8] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-20-5-21-v2-0-english-reduced-filesize-pdf/

[9] https://pcgc.gig.cymru/nwssp-latest-news-items/system-health-roster-newydd-yn-pcgc/

[10] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf

## Beth oedd effaith COVID-19 ar ofal diogel ac effeithiol?

Crëwyd heriau digynsail i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol gan bandemig COVID-19. Mae'r arweinyddiaeth a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd gan staff nyrsio yn ystod pandemig COVID-19 yn profi eu hymrwymiad i ddiogelwch cleifion. Mae'r proffesiwn nyrsio wedi bod yn flaenllaw yn yr ymateb i'r pandemig, gan arwain arloesedd ac ansawdd triniaeth a gofal.

Nyrsio yw'r proffesiwn mwyaf yn y GIG, ac mae nyrsys cofrestredig yn gyfran sylweddol o hwn. Mae cyngor nyrsio proffesiynol yn hanfodol i sicrhau canlyniadau effeithiol i gleifion. Dylai Llywodraeth Cymru bob amser ofyn am gyngor gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i hysbysu penderfyniadau, yn enwedig y rhai sydd angen gwybodaeth ac arbenigedd clinigol. Mae'n bwysig bod cyngor nyrsio yn rhan o bob lefel o wneud penderfyniadau, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd, wardiau ysbyty, timau cymunedol, cartrefi gofal a sectorau eraill.

Mae cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau yn hanfodol i sicrhau diogelwch cleifion a gweithwyr gofal iechyd fel y mae pandemig COVID-19 wedi ei amlygu. Mae cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau yn aml-ffased, yn amrywiol ac yn hanfodol ar gyfer systemau diogel o weithio a darparu gofal. Mae cyngor a ddarperir gan nyrsys atal a rheoli heintiau yn amrywio o hylendid dwylo; dadansoddi labordy a dihalogi; caffael cyfarpar diogelu personol yn gynaliadwy; rheoli achosion unigol ac atal a rheoli brigiadau; i gynllunio ar gyfer argyfyngau a gwyliadwriaeth. Hefyd, mae cyngor atal a rheoli heintiau yn ymestyn i'r amgylchedd adeiledig i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â systemau aer, dŵr a pheirianneg. Mae'r maes arfer nyrsio arbenigol hwn yn unigryw o ran ehangder ei arfer a chyfrifoldeb, gan ei fod yn cwmpasu systemau iechyd a gofal a'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau. Dylid adlewyrchu gwerth a rheidrwydd cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau ym mhob strwythur iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Heriwyd byrddau iechyd i gynnal lefelau staff nyrsio o ganlyniad i gynnydd i nifer y cleifion ac aciwtedd cleifion a chynnydd i absenoldeb staff (oherwydd bod ganddynt COVID-19 a/neu yr angen i hunanynysu).


Yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19, cafodd ffyrdd arferol o weithio eu gohirio neu eu diwygio i sicrhau y gallai'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ymateb i'r pandemig; roedd hyn yn golygu yr adleoliwyd nyrsys i fannau a oedd yn dioddef prinder staff sylweddol a galw ac aciwtedd uchel ymhlith cleifion. I gael rhagor o wybodaeth am effaith COVID-19 ar nyrsio, gweler papur COVID-19 RCN Cymru (2021).

O ganlyniad i COVID-19, anfonodd y Prif Swyddog Nyrsio ddau lythyr (24 Mawrth 2020, 15 Hydref 2020) i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn rhoi canllawiau ar bwysau COVID-19 o ran Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Yn llythyr y Prif Swyddog Nyrsio o fis Hydref 2020, nodwyd bod offeryn Lefelau Gofal Cymru yn dal i fod yn berthnasol os mai prif ddiben ward o hyd oedd trin cleifion â chyflyrau meddygol neu lawfeddygol. Fodd bynnag, os cafodd ward ei haddasu at ddiben gofalu am gleifion COVID-19 difrifol wael, yna dylai'r ward ddilyn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer staffio mannau gofal critigol a chael eu heithrio o Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Yn ystod pandemig COVID-19, cafodd llawer o wardiau eu haddasu, a hynny'n ddealladwy, i ofalu am gleifion COVID-19. Mae hyn yn golygu bod nifer y wardiau a oedd yn ddarostyngedig i Adran 25B wedi newid mwy fyth yn 2020/2021 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fe wnaeth rhai byrddau iechyd gofnodi'r nifer fwyaf a lleiaf o wardiau a oedd yn ddarostyngedig i Adran 25B yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddull cyson ar draws Cymru gan nad oedd yn ofyniad angenrheidiol i fyrddau iechyd.

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd adrodd nifer y wardiau Adran 25B ar **ddiwedd** y cyfnod adrodd, a nifer yr achlysuron pan ail-gyfrifwyd y lefelau staff nyrsio yn ogystal â'r cyfrifiad chwe-misol ar gyfer pob ward sy'n ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnig gwybodaeth am ba un a yr ail-gyfrifwyd y ward i gael ei gynnwys yn Adran 25B, i gael ei dynnu allan o Adran 25B, neu a yw nifer y nyrsys wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r ffigur isod yn dangos y nifer **fwyaf** o wardiau a gwmpaswyd gan Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ar gyfer 2020/2021.

Wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B, fesul bwrdd iechyd 2018/2021




Mae realiti y ffordd y rheolwyd wardiau yn ystod cyfnodau brig pandemig COVID-19 yn hynod gymhleth ac aml-ffased. Un cam y penderfynodd llawer o fyrddau iechyd ei gymryd oedd sefydlu grŵp i fonitro lefelau staffio yn feunyddiol; roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Gell Logisteg Arian Staff Nyrsio, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn monitro lefelau staffio bedair gwaith y dydd drwy'r Canolfannau Rheoli COVID-19 Lleol, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal cyfarfodydd dyddiol.

Roedd lefelau staffio dan straen ac ar y pryd nid oedd byrddau iechyd yn gallu cynnal lefelau staff nyrsio yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae'n rhaid cydnabod canlyniadau risg gynyddol i ddiogelwch cleifion a'r canlyniadau is na'r hyn sy'n ddelfrydol gwirioneddol anochel i rai cleifion, ni waeth faint o drallod y mae hyn yn ei achosi. Mae nyrsio yn broffesiwn lle mae diogelwch yn hollbwysig.

## Cynnydd i aciwtedd cleifion

Un o sgil-effeithiau posibl pandemig COVID-19 yw cynnydd i aciwtedd cleifion ar wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B dros y flwyddyn ddiwethaf; mae hyn wedi dod yn amlwg yn ailgyfrifiadau byrddau iechyd o niferoedd nyrsio (nifer y staff nyrsio sydd eu hangen) ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r gweithlu nyrsio yn defnyddio Lefelau Gofal Cymru (pum lefel) i neilltuo claf i'r lefel gywir o ofal trwy gynnig disgrifiadau o'r math o glaf nodweddiadol ar bob lefel. Caiff y disgrifiadau hyn eu rhannu i gategorïau, sef lleyg, clinigol a nyrsio. Mae'r disgrifyddion Lleyg yn disgrifio mewn termau syml cyflyrau nodweddiadol y claf a mathau o ofal. Disgwylir y bydd y disgrifyddion Lleyg yn ddigonol i neilltuo lefel gywir o ofal i'r mwyafrif o gleifion y rhan fwyaf o'r amser.[11]

Caiff y disgrifyddion Lleyg eu crynhoi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Lefel 5 | **Gofal Un i Un -** Mae'r claf angen goruchwyliaeth ac arsylwi nyrsio parhaus un i un o leiaf am 24 awr y dydd |
| Lefel 4 | **Gofal Brys -** Mae'r claf mewn cyflwr hynod ansefydlog ac anrhagweladwy naill ai'n gysylltiedig â'r brif broblem neu waethygiad i ffactorau cysylltiedig eraill. |
| Lefel 4 | **Gofal Cymhleth -** Efallai fod gan y claf nifer o broblemau a nodwyd, y mae rhai ohonynt yn rhyngweithio, gan ei gwneud yn fwy anodd i ragweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol |
| Lefel 4 | **Llwybrau Gofal -** Mae gan y claf broblem a nodwyd yn eglur ond efallai fod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio sut y darperir triniaeth. |
| Lefel 4 | **Gofal Mater o Drefn -** Mae gan y claf broblem a nodwyd yn eglur â ffactorau cymhlethu eraill prin. |

Priodolwyd canran o'r cynnydd i aciwtedd ar draws byrddau iechyd i bandemig COVID-19 ac ni fyddai angen newidiadau parhaol i nifer y staff nyrsio. Fodd bynnag, ceir newidiadau parhaus i batrwm aciwtedd cleifion a allai gael eu hysgogi o bosibl gan ymddangosiad hwyr salwch cronig, dirywiad salwch cronig, methiant o ran cymorth gartref i unigolion â namau gwybyddol neu oherwydd ansefydlogrwydd clinigol.[12] Ni ragwelir y bydd yr ysgogwyr hyn yn lleihau, ac felly bydd lefel yr aciwtedd yn barhaol ac yn gofyn am newid i niferoedd nyrsys.

Datgelodd y rhan fwyaf o fyrddau iechyd ym mis Tachwedd 2021 y bu cynnydd i aciwtedd cleifion gan arwain at ailgyfrifo'r staff nyrsio sydd eu hangen. Esbonnir hyn ymhellach yn Adran 2.

[11] https://heiw.nhs.wales/files/all-wales-nurse-staffing-programme/welsh-levels-of-care-edition-1/#:~:text=The%20Welsh%20Levels%20of%20Care,predictable%2C%20requiring%20routine%20nursing%20care.

[12] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-18-11-21-public-v3-0-pdf/

## Swyddogaeth diogelwch gritigol y rheolwr ward

Mae profiad COVID-19 wedi amlygu hollbwysigrwydd crebwyll proffesiynol y rheolwr ward (a adnabyddir hefyd fel prif nyrs ward) o ran sicrhau bod y risg i ddiogelwch cleifion cyn lleied â phosibl wrth i'r sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a'r niferoedd o staff nyrsio a oedd ar gael gael eu hasesu a'u defnyddio i sicrhau bod risg cyn lleied â phosibl. Mae angen cydnabod a gwobrwyo yn briodol y broses gwneud penderfyniadau gymhleth a heriol hon â chanlyniadau critigol i ddiogelwch cleifion.

Mae'n nodi yn eglur yng nghanllawiau statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 y dylai rheolwyr ward fod yn 'ychwanegol'. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried y swydd ar wahân i swydd nyrs staff sy'n darparu gofal cleifion uniongyrchol. Mae rheolwr ward yn hynod wybodus a phrofiadol ac yn meddu ar lefel uchel o sgiliau ac arbenigedd clinigol. Mae statws ychwanegol yn sicrhau y gallant ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd i fonitro'r ward a gofynion gofal cleifion, sicrhau lefelau staffio priodol ar ddarparu cymorth a chyfarwyddyd i'r holl staff ar eu ward. Fodd bynnag, ni ddarperir statws ychwanegol bob amser; mae hyn yn arbennig o wir mewn cyfnodau anodd yn ystod pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnodau hyn, cymerir rheolwyr ward allan o'u statws ychwanegol ac fe'u rhoddir ar y wardiau i ddarparu gofal cleifion uniongyrchol.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021, adroddodd Caerdydd a'r Fro nad oedd gan bump o'u 43 o wardiau reolwyr ward â statws ychwanegol erbyn diwedd y cyfnod. Yn ystod yr un cyfnod, adroddodd Aneurin Bevan mai un o'u 43 o wardiau nad oedd ganddi reolwr ward ychwanegol.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod y bwrdd wedi sicrhau statws ychwanegol i reolwyr ward ym mhob ward o ddechrau i ddiwedd y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mai 2021; fodd bynnag, rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021, cymerwyd y rheolwr ward allan o'i swyddogaeth oruchwylio.

**STATWS YCHWANEGOL RHEOLWYR WARD FESUL BWRDD IECHYD**
*(Ebrill 2021 ar wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B yn unig)*

| | |
|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | NAC YDY (nid yw 1 rheolwr ward yn ychwanegol) |
| BIP Betsi Cadwaladr | YDY |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | YDY |
| BIP Caerdydd a'r Fro | NAC YDY (ceir 5 rheolwr ward nad ydynt yn ychwanegol |
| BIP Hywel Dda | YDY |
| BIP Bae Abertawe | YDY |

Cyhoeddodd yr RCN adroddiad yn ddiweddar (2022) ar bwysigrwydd rheolwyr ward.[13] Mae'r adroddiad yn dangos gwerth bod â rheolwr ward ychwanegol.

[13] RCN Cymru, 2022. *The importance of being supernumerary*

## Swyddi nyrsys cofrestredig gwag yn GIG Cymru

Mae RCN Cymru yn amcangyfrif bod o leiaf 1,719 o swyddi nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn gwag yn GIG Cymru.

Llywodraeth Cymru yw'r unig wlad yn y DU i beidio â chyhoeddi data ar swyddi nyrsio gwag yn y GIG ar lefel genedlaethol. Nid oes diffiniad o 'swydd wag' wedi'i gytuno yn genedlaethol hyd yn oed. Er enghraifft, bydd rhai o'r byrddau iechyd yn mynnu ar broses 'adolygu' a all gymryd hyd at chwe mis cyn datgan 'swydd wag swyddogol'. Mae hyn yn creu anghysondeb yn y data ac yn gweithredu i guddio realiti'r sefyllfa. Gan mai Llywodraeth Cymru sy'n comisiynu nifer y lleoedd i fyfyrwyr nyrsio ar lefel genedlaethol, mae'r absenoldeb hwn o ddata swyddi gwag yn golygu nad oes unrhyw gynllunio gweithlu effeithiol ar lefel genedlaethol.

Er mwyn gwneud amcangyfrif felly, mae RCN Cymru wedi archwilio adroddiadau byrddau iechyd i ddarganfod eu cyfraddau swyddi gwag unigol. Fodd bynnag, mae Betsi Cadwaladr yn cyfeirio at swyddi gwag Band 5 **yn unig** a dim ond data swyddi nyrsys cofrestredig gwag o ddau o'i ysbytai, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Daw'r data i ni eu canfod o fis Mai 2021 ac eithrio cyfraddau swyddi gwag Powys lle'r oedd y data hysbys diwethaf a ddarparwyd o fis Rhagfyr 2019 a Chaerdydd a'r Fro sydd o fis Medi 2021.

Y tu hwnt i hyn, mae'r amcangyfrifon yn cymryd i ystyriaeth swyddi gwag a hysbysebwyd yn unig. Mae'r amcangyfrifon yn dangos pa mor anodd yw hi cwmpasu'r gyfradd swyddi nyrsio gwag yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn ail, yr effaith sylweddol y mae swyddi gwag yn ei chael ar ofal cleifion a'r pwysau sydd ar ein nyrsys yn y GIG.

Mae cynaliadwyedd y gweithlu yn hanfodol i sicrhau gofal cleifion o ansawdd uchel ond mae Llywodraeth Cymru yn methu â chyhoeddi ystadegau cenedlaethol ar gyfer swyddi nyrsio gwag. Mae'r gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag yn ddangosydd critigol o'r pwysau sydd ar fyrddau neu ddisgyblaethau iechyd. Mae pob bwrdd iechyd yn cydnabod yr angen am gynnydd i nifer y nyrsys cofrestredig.

**SWYDDI NYRSYS COFRESTREDIG GWAG (CYFWERTH AG AMSER LLAWN) FESUL BWRDD IECHYD**
*(Mai 2021)*

| | | |
|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 165 | |
| BIP Betsi Cadwaladr | 541 | (nyrsio a bydwreigiaeth Band 5 yn unig) |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 98 | (yn cynnwys YTS ac YBM yn unig) |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 155 | |
| BIP Hywel Dda | 408 | |
| BIP Bae Abertawe | 264 | |
| BIP Powys | 88 | (nyrsio a bydwreigiaeth Rhagfyr 2019) |
| **Cyfanswm** | **1,719** | |

## Gwariant asiantaeth

Bydd angen rhyw elfen o nyrsio dros dro yn y GIG bob amser yn ystod cyfnodau salwch byr a mamolaeth. Fodd bynnag, mae nyrsio asiantaeth yn ddrud i sefydliad a cheir cost uwch i sicrhau elw i'r asiantaeth. Nid yw'n ddelfrydol chwaith fel opsiwn parhaol neu hirdymor i sefydliad gan y bydd nyrsys asiantaeth yn llai cyfarwydd a chynllun, polisïau ac offer wardiau ac yn llai abl i ddarparu parhad gofal.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae GIG Cymru wedi gwario £358.7 miliwn ar nyrsio, bydwreigiaeth, a chynorthwywyr nyrsio asiantaeth. Mae'r defnydd o nyrsio asiantaeth hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd gan godi o £52.4 miliwn yn 2017, i £59.1 miliwn yn 2018, i £69 miliwn yn 2019.[14] Yn 2019, gwariwyd £69.04 miliwn ar nyrsio asiantaeth: byddai hyn yn talu cyflogau 2,691 o nyrsys sydd newydd gymhwyso.

Cynyddodd gwariant asiantaeth yn sydyn yn ystod cyfnodau brig pandemig COVID-19. Cafwyd y cynnydd mwy i gyfanswm costau asiantaeth yn Aneurin Bevan yn 2020 i 2021, yn cynyddu o £26.7 miliwn i £40.6 miliwn.[15]

Cyfeirir at asiantaeth nad ydynt yn rhan o'r contract fframwaith a gytunwyd yn genedlaethol fel asiantaethau y tu allan i'r contract. Mae gan yr asiantaethau hyn dâl fesul awr uwch nac asiantaethau sy'n rhan o'r contract yn gyffredinol. £54.54 yw'r gost gyfartalog yr awr o'i chymharu â chost y rhai sy'n rhan o'r contract, sef £37.43 yr awr.[16]

Mae'n rhyfeddol o safbwynt craffu cyhoeddus nad yw gwariant ar asiantaethau y tu allan i'r contract yn cael ei adrodd yn gyson ledled Cymru. Nododd y byrddau iechyd sydd yn adrodd eu gwariant gynnydd sylweddol yn 2020/2021. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei fod wedi cyflogi 78.5 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn o asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r contract ym mis Rhagfyr 2020, 69.4 yn fwy na'r flwyddyn cynt. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn adrodd mai £1.5 miliwn yw ei wariant asiantaethau y tu allan i'r contract ym mis Ebrill 2021.

Dylai gwariant ar nyrsio asiantaeth fod ar gael heb fod angen i sefydliadau neu AS ddefnyddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Dylai sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario fod yn fater o graffu cyhoeddus.

Hefyd, mae data gwariant asiantaeth yn dangos yn eglur yr angen sydd gan fyrddau iechyd am staff nyrsio na allant eu cyflenwi o'u gweithluoedd eu hunain. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer anghenion cynllunio'r gweithlu a dylai fod ar gael i hysbysu'r broses o gomisiynu lleoedd myfyrwyr nyrsio.

## Cadw

Yn ôl data'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, ymunodd 1,458 o nyrsys cofrestredig â'r gofrestr barhaol yng Nghymru. Fel cymhariaeth, gadawodd 1,243 o bobl y gofrestr.[17]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y lleoedd myfyrwyr nyrsio yng Nghymru bob blwyddyn yn y 10 mlynedd diwethaf, ac eithrio 2019/2020 pan arhosodd y nifer yr un fath. Mae'r cynnydd i'w groesawu yn fawr. Yn anffodus, nid oes unrhyw arwydd bod yr ecsodus o nyrsys sy'n gadael y GIG yn arafu ac, yn wir, gallai fod yn cynyddu gan fod llawer o nyrsys yn gadael y proffesiwn yn gynharach yn eu gyrfaoedd.

---

[14] Smith, M. 2020. *'The staggering amount spent on agency nurses to keep the Welsh NHS running'. Wales Online*. Ar gael yn: *The staggering amount spent on agency nurses to keep the Welsh NHS running - Wales Online.* Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[15] Lewis, A. 2021. *'The huge amount of money spent on agency staff in Wales to fill the gaps in the NHS Workforce' Wales Online*. Ar gael yn: https://www.walesonline.co.uk/news/health/huge-amount-money-spent-agency-21199623. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[16] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 2021. Papurau bwrdd. Ar gael yn https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-public-board-wednesday-28th-july-2021-pdf/. Gwelwyd ar 11 Hydref 2021.

[17] Mae RCN Cymru yn amcangyfrif bod tua 20% o nyrsys cofrestredig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru yn cymudo i'r gwaith yn Lloegr. Sylwer hefyd y bydd rhai nyrsys wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ond nad ydynt yn gweithio yn glinigol (e.e. yn darlithio neu wedi ymddeol).

Rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2021, cynyddodd y gweithlu nyrsio, gweithwyr cymorth gofal iechyd a bydwragedd a gyflogir gan GIG Cymru o 33 o bobl yn unig, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.1%.[18] Er y bu cynnydd mân iawn i'r gweithlu cyffredinol a chynnydd mewn meysydd penodol, er enghraifft cynyddodd nifer y nyrsys ymgynghorol o 5.1 (cyfwerth ag amser llawn), cydbwyswyd hyn gan ostyngiad ofnadwy mewn meysydd nyrsio eraill. Gostyngodd nifer y metronau modern o 12.7 (cyfwerth ag amser llawn), gostyngodd ymwelwyr iechyd o 21 (cyfwerth ag amser llawn), a gostyngodd nyrsys ardal o 41.2 (cyfwerth ag amser llawn), sy'n cyfateb i 6% o'r gweithlu nyrsys ardal yn gadael mewn blwyddyn.[19]

Mae hyn er gwaethaf ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus ar draws byrddau iechyd fel Cwm Taf Morgannwg ac Aneurin Bevan. Mae hyn yn dangos maint y niferoedd sy'n gadael y GIG, a'u harbenigedd a'u blynyddoedd o brofiad gyda nhw.

Mewn arolwg gan RCN yn 2020 o 2,011 o aelodau RCN Cymru, gofynnwyd i'r aelodau "gan feddwl yn ôl i ddiwedd 2019, sut oeddech chi'n teimlo am aros yn y proffesiwn nyrsio neu ei adael?" Mewn ymateb, dywedodd 26.9% eu bod naill ai'n meddwl am adael y proffesiwn neu'n meddwl yn gryf am adael y proffesiwn. Yna gofynnwyd, "beth fyddai'n disgrifio orau sut rydych yn disgwyl teimlo am aros yn y proffesiwn neu ei adael ar ddiwedd 2020?" Mewn ymateb, dywedodd 36.7% eu bod yn disgwyl bod yn ystyried neu adael y proffesiwn neu ystyried gadael y proffesiwn yn gryf. Mae'r cynnydd sydyn i nifer y nyrsys sy'n ystyried gadael y proffesiwn yn peri pryder ac yn dangos effaith sylweddol COVID-19 a phwysau cronig ar y gweithlu.

Er mwyn darparu gwasanaeth gofal iechyd i'r cyhoedd ac i ddarparu gofal nyrsio *diogel ac effeithiol* mae angen i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru roi sylw difrifol i'r mater o sut i gadw nyrsys yn gweithio yn y GIG.

Mae pedwar bwrdd iechyd wedi cynnwys yr anallu i gadw staff nyrsio ar eu cofrestr risg gorfforaethol ers nifer o flynyddoedd: Cwm Taf Morgannwg (Ionawr 2016), Powys (Ionawr 2017), Aneurin Bevan (Mawrth 2017) a Betsi Cadwaladr (Rhagfyr 2017). Fodd bynnag nid yw Bae Abertawe, Hywel Dda a Chaerdydd a'r Fro wedi rhestru cadw staff ar eu cofrestr risg gorfforaethol er eu bod yn cydnabod ar yr un pryd mewn papurau i'w byrddau bod cadw nyrsys yn her ddifrifol. Yn hytrach, mae'r tri bwrdd iechyd hyn yn rhestru methiant i *recriwtio* niferoedd priodol o nyrsys ar eu cofrestrau risg – mae hyn yn dangos methiant sylweddol o ddealltwriaeth strategol. Ni fydd camau lliniaru i wella recriwtio yn datrys problemau cadw staff.

Wrth adolygu papurau bwrdd y byrddau iechyd sy'n cydnabod y broblem cadw nyrsys, mae absenoldeb strategaeth genedlaethol yn eglur iawn. Prin iawn yw'r gydnabyddiaeth neu'r ddealltwriaeth a ddangosir o *pam* mae nyrsys yn gadael ac ni sefydlwyd unrhyw fentrau i berswadio nyrsys i aros. Mae'n ymddangos bod gan GIG Cymru ychydig neu ddim gwybodaeth am ddulliau priodol ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w mabwysiadu i berswadio pobl i aros. Hefyd, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gymhelliad neu drefn rheoli perfformiad amlwg gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.

[18] Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 30 Mehefin 2021 | LLYW.CYMRU

[19] Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, yn ôl gradd a maes gwaith (llyw.cymru)

I gynorthwyo gyda COVID-19, dychwelodd nifer o nyrsys ar sail dros dro i weithlu'r GIG yng Nghymru. Mae hyn yn dangos y gronfa bosibl o nyrsys sydd ar gael yn barod yng Nghymru – ac eto ni chymerodd Llywodraeth Cymru y cyfle i ofyn i'r grŵp hwn o nyrsys beth fyddai'n eu hannog i aros yn y GIG.

Heb unrhyw strategaeth gadw genedlaethol ar gyfer nyrsio, mae byrddau iechyd wedi cymryd ychydig neu ddim camau i fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon.

Cynlluniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe arolwg cadw nyrsys '*fabulous fifties*' ar gyfer mis Mawrth 2020, ar gyfer staff nyrsio 50 oed a hŷn i ddeall eu cynlluniau ymddeol a pha un a fyddent yn ystyried opsiynau gyrfaol amgen cyn ymddeol. Cyhoeddodd y bwrdd iechyd adroddiad o'r enw *Nursing Workforce Analysis, Recruitment and Retention* ym mis Ebrill 2021 gydag argymhelliad i ddatblygu strategaeth recriwtio a chadw nyrsys.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydnabod y byddai'n ymddangos bod cynnig oriau gweithio hyblyg yn strategaeth hanfodol i gadw staff profiadol a medrus a allai ymddeol neu adael y proffesiwn yn llwyr fel arall. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a chymerwyd unrhyw gamau ar y pwynt hwn.

## Recriwtio rhyngwladol

Mae recriwtio rhyngwladol yn rhan hanfodol o sicrhau bod digon o nyrsys yn gweithio yn GIG Cymru i ddarparu gofal. Mae pob bwrdd iechyd yn recriwtio yn rhyngwladol, ond mae rhai byrddau iechyd yn fwy dibynnol, neu lwyddiannus, o ran recriwtio rhyngwladol nag eraill.

Ym mis Mehefin 2019, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 350 o swyddi nyrsio cyfwerth ag amser llawn gwag. Ym mis Mai 2021, dim ond 165 oedd gan y bwrdd iechyd ac roedd yn disgwyl i hyn ostwng ymhellach i 121 erbyn mis Awst 2021. Mae'r llwyddiant hwn i raddau helaeth oherwydd ymgyrch recriwtio ryngwladol lwyddiannus. Mae'r bwrdd iechyd yn ymgysylltu yn helaeth a chwmnïau recriwtio tramor ac ers mis Medi 2019 mae'r bwrdd iechyd wedi penodi 160 o nyrsys tramor cyfwerth ag amser llawn.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus hefyd o ran denu nyrsys rhyngwladol i'r bwrdd iechyd. Cychwynnodd y bwrdd iechyd ymgyrch recriwtio dramor ar gyfer nyrsys ym mis Mehefin 2019 ac mae wedi recriwtio 213 o nyrsys cyfwerth ag amser llawn ers hynny, yn bennaf o India.[20]

Nid oes unrhyw ddull cenedlaethol o recriwtio rhyngwladol ar hyn o bryd, ac felly nid oes dull safonol o recriwtio nyrsys tramor. Mae'r RCN yn credu yn gryf y dylai fod dull Cymru gyfan cenedlaethol o recriwtio rhyngwladol. Ym mis Mehefin 2018, cynhaliodd RCN Cymru ddigwyddiad Recriwtio Rhyngwladol – Dysgu o Brofiad. Roedd byrddau iechyd, prifysgolion, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sector annibynnol yn bresennol yn y digwyddiad hwn. Yn ystod y gwerthusiad o'r digwyddiad, dywedodd nifer fawr o sylwadau a dderbyniwyd (11 o 20) y dylid mabwysiadu dull Cymru Gyfan.

[20] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14b-appendix-a-annual-assurance-report-on-compliance-on-the-nurse-staffing-levels-wales-act-2019-2020-1-pdf/

Byddai angen i ddull cenedlaethol Cymru Gyfan sicrhau cysondeb o ran asesu anghenion, datblygu mentrau caffael effeithiol, cynorthwyo nyrsys rhyngwladol yn ystod y broses a'u paratoi ar gyfer gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Trwy sefydlu dull cenedlaethol, byddai hyn yn caniatáu i recriwtio rhyngwladol gael ei ystyried ar lefel Cymru Gyfan ac yn cynnig set ddata eglur o faint o nyrsys tramor sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru, ac o ble maent yn dod.

Yn ogystal â darparu dull cenedlaethol o recriwtio nyrsys tramor, mae angen cydnabyddiaeth ein bod yn dymuno iddynt aros yng Nghymru. Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru wrthi'n datblygu cynlluniau cyflawni ar gyfer y strategaeth gweithlu 10 mlynedd ar hyn o bryd; mae'n rhaid i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gydnabod yr angen i gadw nyrsys tramor yn gweithio ac yn byw yng Nghymru.

Yng Nghymru, rhagwelir y bydd un o bob pedwar o'r boblogaeth yn hŷn na 65 oed erbyn 2038.[21] Rhagwelir hefyd y bydd y boblogaeth hŷn na 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.3% o'r boblogaeth yn 2018 i 13.7% yn 2038.[22] Felly, efallai na fydd digon o bobl o oedran gweithio yng Nghymru i ddarparu gofal cymdeithasol addas yn y dyfodol agos. Felly, er ein bod yn cefnogi yn llwyr cynnydd i gyflogau staff gofal cymdeithasol, ni all hwn fod yr unig ateb oherwydd er gwaethaf cynnydd i gyflogau efallai na fydd digon o bobl yng Nghymru i ddarparu'r gofal hwn.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd sylw o gyfraith fewnfudo ac effeithiau parhaus Brexit. Fel y dangoswyd, mae Cymru yn ddibynnol ar recriwtio rhyngwladol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau mewnfudo y presennol a'r dyfodol yn cymryd i ystyriaeth y newid i'r galw yng Nghymru o'i chymharu â'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Galwodd yr RCN am fecanwaith ffurfiol ar gyfer Cymru yn debyg i Restr o Alwedigaethau lle ceir Prinder yr Alban ar hyn o bryd. Gwnaed yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo i'r Swyddfa Garter, ac fe'i derbyniwyd. Ar ôl adolygu'r Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder, argymhellodd y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo y dylid ychwanegu gweithwyr iechyd proffesiynol (2219) at restr o Alwedigaethau lle ceir Prinder *Cymru yn unig* i sicrhau bod anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu diwallu. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro llwyddiant recriwtio rhyngwladol a sicrhau bod y system fewnfudo yn addas ar gyfer Cymru.

### Yr estyniad i Adran 25B

Pan basiwyd y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), roedd uchelgais cyffredin ar draws pleidiau gwleidyddol i ymestyn Adran 25B i bob maes nyrsio. Rhannwyd yr uchelgais hwn gan yr RCN.

Sefydlwyd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i fodloni gofynion y Ddeddf a sefydlu ffrydiau gwaith i ymestyn Adran 25B i feysydd penodol o nyrsio. Mae'r ffrydiau gwaith fel a ganlyn:

- Meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion
- Pediatrig
- Nyrsio ardal
- Ymweliadau iechyd
- Iechyd meddwl

[21] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/dogfen-ymgynghori_0.pdf

[22] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019, https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/bulletins/nationalpopulationprojections/2018based

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gweithrediad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 hyd at fis Tachwedd 2021. Cafodd Adran 25B y Ddeddf ei hymestyn i wardiau pediatrig cleifion mewnol ar 1 Hydref 2021. Felly ni chafwyd cyfle eto i werthuso gweithrediad Adran 25B ar wardiau pediatrig, ond deallir bod llawer o fyrddau iechyd wedi cyflwyno papurau i'w bwrdd i dynnu sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol a chynnydd i'r gyllideb ar gyfer wardiau pediatrig a staffio er mwyn paratoi ar gyfer yr estyniad i Adran 25B.

Yn 2019, canfu adroddiad blaenorol yr RCN y bu cynnydd i nifer y staff nyrsio a bob ward yng Nghymru a oedd yn ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae ymestyn Adran 25B i wardiau pediatrig yn dangos eto bod camau sefydliadol yn cael eu cymryd yn sgil gwneud diogelwch cleifion yn rhwymedigaeth gyfreithiol i fyrddau iechyd. Mae'r newid i'r gyfraith sy'n sefydlu atebolrwydd statudol eglur yn newid ymddygiad sefydliadol gan arwain at ofal mwy diogel i gleifion sy'n agored i niwed.

## Nyrsio ardal

Mewn cyferbyniad â'r ffrwd waith bediatrig, mae'n werth nodi mai dim ond Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wnaeth gynnig sylwadau ar ei gynnydd yn y ffrwd waith iechyd meddwl a'r ffrwd waith nyrsio ardal yn ei adroddiad tair blynedd. Ni wnaeth unrhyw fwrdd iechyd arall sôn am yr un o'r ddwy ffrwd waith yng nghyd-destun cynnydd neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae byrddau iechyd yn cyfeirio yn achlysurol at y ffrydiau gwaith yn ei hadroddiadau sicrwydd blynyddol. Er enghraifft, yn 2019/2020 gwnaed Cwm Taf Morgannwg sylwadau ar y ffrwd waith nyrsio ardal yn unig, ond rhoddodd wybodaeth am y ddwy yn 2020/2021. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnig trosolwg o weithgarwch y ffrydiau gwaith yn ei bapur bwrdd o fis Mai 2021.

Fel mesur i gynorthwyo byrddau iechyd i baratoi ar gyfer yr estyniad i Adran 25B, cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio egwyddorion canllaw interim ar gyfer lefelau staff nyrsio yn y gymuned yn 2019. Caiff adroddiad chwe-misol ei lunio gan fyrddau iechyd ar gyfer y Prif Swyddi Nyrsio yn ymwneud â chydymffurfiad â'r egwyddorion staff nyrsio ardal interim a nifer y swyddi gwag ar gyfer nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd cofrestredig yn y gymuned.

Mae llawer o fyrddau iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau eu bod yn barod ar gyfer estyniad posibl i'r Ddeddf. Er enghraifft:

- Adroddodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ei bapurau bwrdd o fis Ebrill 2021 bod cynnydd wedi cael ei wneud yn ystod 2020/21, er gwaethaf heriau 2020, o ran sicrhau mwy o gydymffurfiad ag egwyddorion staff nyrsio ardal interim GIG Cymru.[23]
- Adroddodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ei fod yn cydymffurfio â chwech allan o wyth o egwyddorion ym mis Mai 2020 a'i fod wedi recriwtio nyrsys yn llwyddiannus i dimau nyrsys ardal, a brofir gan ffactor swyddi gwag o 5.2% o'i gymharu ag 8.9% a adroddwyd yn flaenorol.[24] Flwyddyn yn ddiweddarach, nododd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ei fod yn falch o fod wedi gwneud cynnydd pellach eto yn erbyn yr egwyddorion craidd, gan roi'r bwrdd iechyd mewn sefyllfa gref iawn. Dangosodd y bwrdd iechyd gydymffurfiad llawn yn erbyn pedair egwyddor a pherfformiad dros 90% yn erbyn un arall.[25]

---

[23] https://hduhb.nhs.wales/about-us/governance-arrangements/statutory-committees/quality-safety-and-experience-assurance-committee-qseac/qseac/quality-safety-and-experience-assurance-committee-meeting-13-april-2021/item-3-2-1-nurse-staffing-levels-wales-act-draft-annual-report-2020/

[24] Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus 2020-12-16 16 Rhagfyr 2020.pdf (sharepoint.com)

- Adroddodd Cwm Taf Morgannwg ganfyddiadau tebyg i Aneurin Bevan, ar ôl sicrhau cydymffurfiad llawn yn erbyn tair egwyddor o fis Mai 2021, a chydymffurfiad o dros 90% â thair egwyddor arall.[26]
- Cydnabuwyd gan Gaerdydd a'r Fro bod COVID-19 wedi profi'r egwyddorion nyrsio ardal, ond cadarnhaodd bod modelu gweithlu'r timau wedi bod yn effeithiol gan fod timau nyrsio ardal wedi cael eu lleoli yn effeithio i weithio ar y cyd â chleifion yn cael eu rhyddhau o gartrefi gofal, hosbisau ac ysbytai.[27]

Mae byrddau iechyd wedi dangos eu cydymffurfiad a'u parodrwydd i fodloni'r egwyddorion staff nyrsio interim er gwaethaf diffyg dyddiad rhoi Adran 25B ar waith gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn llwyddiant y byrddau iechyd, mae'r RCN yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol yn y tymor Senedd hwn.

## Wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl

Yn aml, unigolion ar wardiau iechyd meddwl yw rhai o'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac mae staff nyrsio angen digon o amser i ddarparu gofal sensitif. Mae'r RCN o'r farn y dylai'r maes gofal clinigol hwn fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymestyn Adran 25B. Dangosodd canfyddiadau adroddiad Tawel Fan ym mis Medi 2014 yr effaith ofnadwy ar ofal cleifion sy'n digwydd pan fydd diffyg cyllid, diffyg staff digonol, diffyg sgiliau yn y gweithlu a diffyg arweinyddiaeth i gyd yn cyfuno ac eto yn cael eu gadael heb eu datrys gan reolwyr.

Mae gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan ffrwd gwaith cleifion mewnol iechyd meddwl. Penodwyd arweinydd prosiect iechyd meddwl ym mis Tachwedd 2020 ac mae egwyddorion staffio interim drafft yn cael eu llunio i hysbysu a llywio cynlluniau gweithlu fel mesur dros dro tan i Adran 25B gael ei hymestyn. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am gynnydd y byrddau iechyd unigol yn brin, ac mewn rhai achosion nid yw'n bodoli o gwbl yn eu hadroddiadau tair blynedd a sicrwydd blynyddol.

[25] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

[26] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14e-appendix-d-annual-assurance-report-ctm-2020-2021-pdf/

[27] 2020-11-26 Agenda a Phapurau.pdf (sharepoint.com)

# ADRAN 2 **ADRODDIADAU BYRDDAU IECHYD**

Mae adran hon yr adroddiad yn edrych yn fwy manwl ar gynnydd a heriau a wynebwyd gan fyrddau iechyd o ran cydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 drwy archwilio papurau'r byrddau iechyd.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan**

1. Sut gwnewch chi fesur llwyddiant eich fframwaith cyffredinol newydd ar gadw nyrsys?
2. Pa mor hawdd yw gweithio hyblyg i nyrsys?
3. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
4. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

Ym mis Tachwedd 2019, nododd y bwrdd iechyd nad oedd gan lawer o wardiau acíwt y nifer angenrheidiol o nyrsys cofrestredig i fodloni'r lefelau staff nyrsio gofynnol. Y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i fynd i'r afael a hyn oedd 'Model Tîm Gofal Craidd' newydd yn 2019. Canolbwyntiodd y model ar bwysleisio arferion dirprwyo priodol a diogel, gan leihau'r pwysau ar y gweithlu nyrsys cofrestredig, a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r diffyg nyrsys cofrestredig.

Roedd y Model Tîm Gofal Craidd yn cynnwys cyflwyno tair swydd: ymarferydd cynorthwyol Band 4, lluniwr amserlenni Band 3 a chynorthwyydd ward Band 2. Erbyn mis Mai 2021, roedd 44.5 o ymarferwyr cynorthwyol Band 4 cyfwerth ag amser llawn wedi cael eu cyflogi ar wardiau Adran 25B.[28] Gwerthuswyd gweithrediad y Model Tîm Gofal Craidd yn 2021 gyda chyflwyniad i'r tîm gweithredol ac ystyriwyd ei fod yn hynod gadarnhaol.[29]

Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn rhan werthfawr o'r tîm nyrsio ac mae gwneud yn siŵr bod y swyddi hyn, gan gynnwys ymarferwyr cynorthwyol Band 4, yn bodoli, y penodir iddynt, ac y'u cynorthwyir ar lefel ddigon uchel yn bwysig iawn. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cymryd lle nyrs gofrestredig. Mae'r dystiolaeth yn eglur iawn bod gwybodaeth, sgiliau a chrebwyll proffesiynol y nyrs gofrestredig mewn swydd oruchwylio yn gwneud y gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau cleifion.

| Wardiau 25B | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|
| **Wardiau meddygol** | | | |
| Uchaf | 16 | 17 | 29 |
| Isaf | 15 | 15 | 21 |
| **Wardiau llawfeddygol** | | | |
| Uchaf | 14 | 14 | 14 |
| Isaf | 14 | 14 | 7 |

[28] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

[29] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

Gall nifer y wardiau Adran 25B newid oherwydd i ward gael ei haddasu at ddibenion gwahanol, ei chau neu ail-werthuso ei phrif swyddogaeth. Yn 2019 a 2020, arhosodd nifer y wardiau Adran 25B yn Aneurin Bevan yn gymharol sefydlog. Yn 2021, 8 (meddygol) a 7 (llawfeddygol) oedd y gwahaniaeth rhwng y nifer fwyaf o wardiau Adran 25B a'r nifer isaf. Roedd hyn yn bennaf oherwydd yr angen i ofalu am gleifion COVID-19 a ychwanegodd agoriad cynnar ysbyty'r Faenor ymhellach at y cynnydd.

Caiff unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, cwympau sy'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth, digwyddiadau byth yn gysylltiedig â meddyginiaeth, neu gwynion am ofal nyrsio eu cofnodi. Mae digwyddiadau o'r fath sy'n arwain at niwed i gleifion yn destun dadansoddiad o wraidd y broblem y ddarganfod yr achos. Gellir ystyried methiant i gynnal lefelau staff nyrsio priodol yn ffactor sy'n cyfrannu at ddigwyddiad. Ni chofnododd Aneurin Bevan unrhyw niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, cwympau na digwyddiadau byth yn gysylltiedig â meddyginiaeth lle ystyriwyd bod lefelau staff nyrsio annigonol yn ffactor cyfrannol yn 2019/2020 na 2020/2021. Yn 2019/2020, ni chafwyd unrhyw gwynion lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol. Fodd bynnag, roedd pedwar yn 2020/2021.

## Effaith COVID-19

Aneurin Bevan oedd y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i ddioddef pwysau difrifol o ganlyniad i COVID-19. Ychwanegwyd diffyg cydymffurfiad at Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 at y gofrestr risg COVID-19 ym mis Mai 2020.[30]

Mabwysiadodd y bwrdd iechyd y Model Tîm Gofal Craidd yn eang yn ystod pandemig COVID-19. Er ei fod yn cydnabod y sail dystiolaeth gref ar gyfer cymarebau nyrsys cofrestredig uchel, mae'r bwrdd iechyd wedi datgan bod y model diwygiedig wedi'i wreiddio yn realiti'r gweithlu oedd ar gael a'r galw amdano yn ystod y pandemig[31]. Ceisiodd y model sicrhau bod y perygl o ddiffyg nyrsys cofrestredig ar adeg o alw uchel cyn lleied â phosibl. Byddai'r RCN yn argymell bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn bod yn ofalus dros ben wrth leihau nifer y nyrsys cofrestredig ac yn sicrhau mai dim ond tasgau priodol sy'n cael eu dirprwyo i'r gweithlu nyrsio ehangach. Mae gwaith ymchwil wedi profi mai presenoldeb y nyrs gofrestredig sy'n lleihau marwolaethau cleifion a chanlyniadau niweidiol i gleifion.

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Ym mis Tachwedd 2019, 361 cyfwerth ag amser llawn oedd cyfanswm y swyddi nyrsys cofrestredig gwag a dwy isadran acíwt yn y bwrdd iechyd oedd â'r gyfradd swyddi gwag uchaf.[32]

| | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfraddau Swyddi Nyrsys Cofrestredig Gwag (cyfwerth ag amser llawn) | 361 | 249 | 165 |

[30] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/board-papers-20th-may-2020-v2-pdf/

[31] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

[32] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod mai'r gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag a waethygwyd gan COVID-19 oedd y risg fwyaf i weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn llwyddiannus.[33]

Roedd y bwrdd iechyd yn ddibynnol ar staff asiantaeth a chronfa i gynnal lefelau staff nyrsio. Parhaodd hyn i 2020 a 2021 wrth i wariant ar asiantaethau gynyddu oherwydd pwysau COVID-19, a amlygwyd gan yr asesiad ariannol o'r adroddiad cydymffurfiad blynyddol mewn nifer o adroddiadau gan gynnwys mis Tachwedd 2021.[34] Dywedodd y bwrdd iechyd y canlynol:

ceir dibyniaeth sylweddol o hyd ar staff dros dro ac mae risg fawr yn gysylltiedig â hyn o ran ansawdd a diogelwch cleifion a'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy amlwg yn llawer o'r cwynion a'r pryderon a dderbyniwyd ac a adolygwyd gan y Bwrdd Iechyd o ran y gofal a ddarperir gan weithwyr asiantaeth. Mae hefyd yn cynyddu yn sylweddol gofynion y swydd ar staff parhaol sydd eisoes wedi blino'n lân. Gall y rhai sy'n anghyfarwydd â pholisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r Bwrdd Iechyd gael eu hystyried yn ymyrraeth i staff parhaol ar adegau oherwydd yr angen i'r "rheoli" mewn gwahanol ffyrdd, a gall hyn gael effaith ar ansawdd gwasanaethau drwy achosi oediadau a tharfu. Gall y defnydd o staff dros dro hefyd fod yn annibynadwy ac effeithiau o dybiaethau o degwch a chael effaith yr ysbryd staff parhaol.[35]

Defnyddiwyd gwahanol strategaethau i fynd i'r afael â'r gyfradd swyddi gwag, fel cymhellion cyflog, hysbysebu ar wefan swyddi RCN, ymgyrchoedd hyrwyddo wedi'u targedu ar gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau recriwtio, a recriwtio rhyngwladol.

Erbyn mis Mai 2021, roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio 160 o nyrsys tramor cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Mai 2021, adroddodd y bwrdd nad oedd y risg fwyaf i weithrediad y Ddeddf yn ymwneud â'r gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag mwyach, ond yn hytrach y risg o weithlu nyrsio newydd ac amhrofiadol – er na chafodd unrhyw esboniad o sut roedd y risg hon yn cael ei lliniaru ei gynnwys.

Mae'r gostyngiad i nifer y swyddi nyrsys cofrestredig gwag yn dangos yr ymrwymiad corfforaethol trawiadol sydd gan y bwrdd iechyd i sicrhau gofal diogel ac effeithiol, i gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ac i leddfu'r pwysau ar y gweithlu presennol. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2021, swyddi nyrsio cofrestredig gwag oedd y risg fwyaf eto, yn gysylltiedig yn benodol ag agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor, wedi'i waethygu gan bandemig COVID-19.[36]

Ym mis Awst 2020, lansiodd y bwrdd iechyd fframwaith cadw gweithlu cyffredinol ac ers pandemig COVID-19 mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi datblygu capasiti integredig ychwanegol gyda'r Gwasanaeth Llesiant Cyflogeion i gynnig cymorth 'ar lawr gwlad'. Uchelgais y bwrdd iechyd yw sefydlu Canolfan Llesiant ac Addysg yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.[37] Mae'r fframwaith cadw ochr yn ochr y cymorth ychwanegol a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Llesiant Cyflogeion yn cydnabod bod profiad staff y bwrdd iechyd yn llunio profiad cleifion ac mai dyma'r agweddau pwysig ar sicrhau ein bod yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion a chymunedau lleol.[38]

---

[33] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-16-december-2020-pdf/

[34] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-24th-november-2021-pdf/

[35] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-24th-november-2021-pdf/

[36] https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-24th-november-2021-pdf/

[37] BIPAB Adroddiad Sicrwydd 3 Blynedd i Lywodraeth Cymru - Ebrill 2021.pdf (sharepoint.com)

[38] BIPAB Adroddiad Sicrwydd 3 Blynedd i Lywodraeth Cymru - Ebrill 2021.pdf (sharepoint.com)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

1. A yw eich "ymgyrchoedd recriwtio nyrsys arloesol" wedi mynd i'r afael â'r gyfradd swyddi gwag?
2. A ydych chi'n recriwtio nyrsys yn rhyngwladol?
3. A oes gennych chi strategaeth cadw nyrsys?
5. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
4. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

Yn 2018/2019, adroddodd Betsi Cadwaladr bump o gwympau cleifion a arweiniodd at niwed difrifol neu farwolaeth lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol. Fodd bynnag, yn 2019/2020, ni chafwyd unrhyw gwympau yn y bwrdd iechyd lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol. Ar gyfer 2020/2021, ni chofnododd Betsi Cadwaladr unrhyw gwynion am ofal nyrsio lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol.

Bu cynnydd i aciwtedd cleifion ers diwedd 2019 a chofnodwyd hyn ym mhapurau bwrdd Betsi Cadwaladr ym mis Tachwedd 2021.[39] Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi dweud y gallai hyn fod oherwydd ymddangosiad hwyr salwch cronig, dirywiad salwch cronig, methiant o ran cymorth gartref i unigolion â namau gwybyddol neu oherwydd ansefydlogrwydd clinigol. Nid yw'r bwrdd iechyd yn rhagweld bod anghenion cleifion ar Lefelau Gofal Cymru 3 a 4 yn debygol o leihau.

Hefyd, o ganlyniad i'r ailgyfrifiadau chwe-misol, nodwyd dibyniaeth gynyddol cleifion yng ngofal y bwrdd iechyd wrth i rai wardiau godi pryderon yn ymwneud â'r dangosyddion ansawdd gofal, y mae rhai ohonynt angen addasiadau i'w lefelau staffio.[40] Mae'r bwrdd iechyd yn dweud yn ddidaro ei bod hi'n eglur y gallai fod effaith negyddol ar ansawdd gofal os na fydd ymateb gweithredol i ganlyniad y cylch cyfrifo.[41]

[39] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

[40] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

[41] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

## Effaith COVID-19

| Wardiau Adran 25B | 2018/ 2019 | 2019/ 2019 | 2020/ 2019 |
|---|---|---|---|
| Wardiau Meddygol | 21 | 24 | 24 |
| Wardiau Llawfeddygol | 17 | 13 | 11 |

Yng ngoleuni'r pandemig, paratowyd cynlluniau ymchwydd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a oedd yn nodi wardiau a fyddai'n cael eu haddasu at ddibenion gwahanol ac a dynnodd sylw at ddarpariaethau capasiti addas ychwanegol. Ar anterth y pandemig, ategwyd hyn gan gynlluniau staff nyrsio ategol a chyfarfodydd lleoli staff dyddiol.

Cydnabuwyd gan y bwrdd iechyd na ellir methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r diffyg o ran swyddi nyrsio cofrestredig gwag: un o heriau mwyaf sylweddol pandemig Covid 19 oedd/yw gwneud yn siŵr bod digon o nyrsys i ddarparu gofal yn sensitif.

Rhwng Mawrth 2020 ac Ionawr 2021 addaswyd 26 o wardiau at ddibenion gwahanol. Yn 2019/2020, ail-gyfrifwyd lefelau staff 16 o weithiau, ac yn 2020/2021 ail-gyfrifwyd lefelau staffio 19 o weithiau pellach. Mae hyn yn dangos natur o newid cyflym y pandemig a'r angen i ymateb.

Mae rheolwyr ward yn darparu arbenigedd, cyfarwyddyd a chymorth i staff ar eu ward. Maent hefyd yn llunio'r rotas ac yn meddu ar gyfrifoldebau gweinyddol, ac o ganlyniad maent i fod yn ychwanegol. Fodd bynnag, esboniodd Betsi Cadwaladr bod rheolwyr ward (Band 7) yn cael eu cynnwys mewn niferoedd darparu gofal, er gwaethaf bwriad i gynnal eu statws ychwanegol, oherwydd anghenion capasiti cynyddol, a chymorth yn ystod salwch/absenoldeb yn gysylltiedig â phandemig COVID-19.[42] Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw hyn yn parhau a bod rheolwyr ward yn cael eu dychwelyd yn briodol i'w statws ychwanegol, yn unol â bwriad y Bwrdd Iechyd.

Hefyd, ym mis Tachwedd 2021, nodwyd bod capasiti uwchgyfeirio/ymchwydd wedi'i ariannu yn annigonol o hyd ac nad yw'n cael ei gefnogi gan lefelau staff nyrsio. Felly, os oes angen capasiti uwchgyfeirio/ymchwydd ni fydd yn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Yr her fwyaf sylweddol i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ôl Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yw lefel eithriadol o uchel o swyddi nyrsys cofrestredig gwag, yn enwedig yng nghyd-destun pandemig COVID-19.[43]

Ym mis Tachwedd 2020, nododd y bwrdd iechyd bod ganddo 541 o swyddi nyrsio a bydwreigiaeth cyfwerth ag amser llawn Band 5 gwag. Ym mis Tachwedd 2021, nododd y bwrdd iechyd mai 636.4 cyfwerth ag amser llawn oedd y gyfradd swyddi nyrsio a bydwreigiaeth gwag gyffredinol. Dyma'r nifer fwyaf a adroddwyd ar draws bob bwrdd iechyd, ond Betsi Cadwaladr yw'r cyflogwr mwyaf hefyd.

[42] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-18-11-21-public-v3-0-pdf/

[43] Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Bwndel 4 Mai 2021 (gig.cymru)

Ar draws 2019, dim ond 18.5 cyfwerth ag amser llawn oedd cyfanswm y twf i'r gweithlu nyrsio a bydwreigaeth, tra bod y gyllideb wedi cynyddu ar gyfer 67 cyfwerth ag amser llawn. Yn 2019, i fynd i'r afael â'r gyfradd swyddi nyrsio gwag sylweddol nododd papurau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (Tachwedd 2019) y bu estyniad i swyddi ar draws bob safle, i liniaru'r risg yn y tymor byr.[44] Mae hwn yn ddull peryglus iawn o fynd i'r afael â swyddi nyrsio gwag yn y tymor hir. Er bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn rhan werthfawr o'r tîm nyrsio nid ydynt yn cymryd lle nyrsys cofrestredig. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd Band 4 yn gweithredu ar lefel uwch ac mae angen i'r swyddi hyn gael eu goruchwylio yn glinigol gan nyrsys cofrestredig. Mae'r dystiolaeth yn eglur iawn mai gwybodaeth, sgiliau a chrebwyll proffesiynol y nyrs gofrestredig mewn swyddogaeth oruchwylio sy'n gwneud y gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau cleifion.

Ym mis Mawrth 2020, nododd y bwrdd iechyd bod y gyfradd llenwi staff wardiau ar gyfer staff nyrsio wedi dirywio a bod gan hyn y potensial i effeithio ar ansawdd gofal a ddarperir i gleifion.[45] O ganlyniad, fe wnaeth y bwrdd iechyd symleiddio recriwtio trywydd cyflym i staff mewnol, canoli ei dîm recriwtio i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio nyrsys wedi'u cefnogi gan arweinwyr nyrsio uwch, a ffurfio partneriaeth a phrifysgolion i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i recriwtio ac arloesi. Yn unol ag adroddiad diweddaraf Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 o fis Mai 2021, mae'r bwrdd iechyd yn cynllunio ymgyrchoedd recriwtio nyrsys arloesol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae gan y bwrdd iechyd Grŵp Recriwtio a Chadw Nyrsys sy'n cyfarfod bob mis. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o hyn a drafodir yn cyfeirio at recriwtio, neu'n dadansoddi data gweithlu gan gynnwys staff sydd ddim ar gael (oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, COVID-19, hyfforddiant) a gofynion staff dros dro. Nid yw'r grŵp yn archwilio mentrau newydd. Er eu bod yn sôn dro ar ôl tro am bwysigrwydd cadw staff, prin iawn sydd wedi'i gofnodi ym mhapurau'r bwrdd iechyd am fentrau a syniadau newydd ar gyfer gwella'r broses o gadw staff.[46]

[44] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-19-11-19-public-v2-0/

[45] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

[46] https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

1. Pa lwyddiant ydych chi wedi ei gael gyda'ch strategaeth cadw nyrsys?
2. Faint o swyddi nyrsys cofrestredig gwag sydd yn eich bwrdd iechyd?
3. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
4. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

Sefydlwyd Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019. Cyfunodd y bwrdd iechyd hwn ardal Cwm Taf â chyfrifoldeb am wasanaethau ym Mhen-y-bont, gan gynnwys Ysbyty Tywysog Cymru. Cynyddodd hyn nifer y wardiau Adran 25B (ar y dyddiad hwnnw) o 10.

Yn 2019, cyflwynodd Cwm Taf Morgannwg fodel gweithredu newydd a gafodd ei ymwreiddio ym mis Ebrill 2020. Roedd y model yn cynnwys Grwpiau Ardal Integredig. Dirprwywyd cyfrifoldeb i'r grwpiau hyn am wasanaethau yn eu hardaloedd. Mae Cyfarwyddwyr Nyrsio Grwpiau Ardal Integredig yn cynnal cyfarfodydd effeithlonrwydd gweithlu gyda'r Penaethiaid Nyrsio, lle caiff camau eu cytuno i sicrhau bod gan wardiau/ardaloedd y lefelau priodol o staff nyrsio, gan ystyried ymddeoliadau posibl a throsiant a amcangyfrifir.

Ni adroddodd y bwrdd iechyd unrhyw niwed bwyso a gafwyd yn yr ysbyty na chwynion am ofal nyrsio lle'r oedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol yn ystod y cyfnod hwn. Cofnododd y bwrdd iechyd un gwymp lle mae methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn cael ei adolygu fel ffactor cyfrannol posibl yn ystod 2020/2021.

### Effaith COVID-19

| Wardiau Adran 25B | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|
| **Meddygol** | | | |
| Uchaf | 14 | 15 | 17 |
| Isaf | 9 | 15 | 15 |
| **Llawfeddygol** | | | |
| Uchaf | 16 | 15 | 11 |
| Isaf | 11 | 7 | 11 |

Yn debyg i bob bwrdd iechyd, rhoddodd pandemig COVID-19 bwysau digynsail ar Gwm Taf Morgannwg gyda chynnydd i aciwtedd cleifion, lefelau uchel o absenoldeb staff oherwydd salwch, gwarchod, ynysu ac adleoli staff, tra hefyd yn wynebu heriau parhaus diffyg nyrsys cofrestredig uchel.

Cafodd cyfanswm o 21 o wardiau Adran 25B eu cynnwys yn y sgôr Coch, Oren, Gwyrdd COVID-19. Rhwng Mehefin 2020 a Medi 2020, roedd 22 o'r 29 o wardiau Adran 25B wedi newid eu swyddogaeth, wedi cael eu had-drefnu a/neu wedi newid lleoliad yn yr ysbyty. Addaswyd wyth ward

yn llwyr at ddibenion gwahanol ac fe'u diffiniwyd fel wardiau COVID-19 yn unig. Mae hyn yn amlygu i ba raddau y gwnaeth COVID-19 herio'r bwrdd iechyd a'r gweithlu.

Yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19, cyflogwyd 411 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth ail a thrydedd flwyddyn fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.[47]

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi adrodd mai un o'r heriau mwyaf sylweddol i'r ddarpariaeth o ofal cleifion o ansawdd uchel yw'r anhawster yn recriwtio ac yn cadw niferoedd digonol o nyrsys a bydwragedd cofrestredig.[48] Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd swyddi nyrsio gwag yn cael ei hadrodd yn gyson i'w bwrdd. Ym mis Mehefin 2019, roedd 55.54 o swyddi nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn gwag ar wardiau Adran 25B. Ym mis Mai 2021, cofnododd y bwrdd iechyd 88 o swyddi nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn gwag ar draws y wardiau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg a 38.59 o swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd gwag.[49]

Dechreuodd Cwm Taf Morgannwg ymgyrch recriwtio tramor fawr ar gyfer nyrsys ym mis Mehefin gan recriwtio 215 o nyrsys cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Mai 2021, dechreuodd y bwrdd iechyd gam dau yr ymgyrch recriwtio tramor i recriwtio 150 o nyrsys pellach; mae hyn yn cynnwys cynnydd i nifer i nyrsys datblygu ymarfer i gefnogi'r rhaglen.[50]

Mae'r ymdrech recriwtio rhyngwladol sylweddol hon yn dangos yr ymrwymiad corfforaethol sydd gan y bwrdd iechyd i sicrhau gofal diogel ac effeithiol, i gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ac i leddfu pwysau ar y gweithlu nyrsio presennol.

Mae papurau'r bwrdd yn nodi anhawster yn recriwtio a chadw staff. Mae'r risg hon wedi bod ar gofrestr risg sefydliadol Cwm Taf Morgannwg ers 1 Ionawr 2016.[51] Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth yn adroddiadau sicrwydd blynyddol y bwrdd iechyd, ei adroddiad tair blynedd nac ar y gofrestr risg am yr hyn y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud i leihau'r risg o ludded a cholli staff profiadol.

[47] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14e-appendix-d-annual-assurance-report-ctm-2020-2021-pdf/

[48] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/25-march-2021/6-1b-appendix-1-organisational-risk-register-risks-rated-15-and-abo-pdf/

[49] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/agenda-bundle-health-board-meeting-27-may-2021/

[50] https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14e-appendix-d-annual-assurance-report-ctm-2020-2021-pdf/

[51] DatixWeb Excel export (gig.cymru)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

1. A ydych chi'n cydymffurfio ag Adran 25A Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ar gyfer wardiau iechyd meddwl?
2. Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod nyrsys ar wardiau iechyd meddwl yn cael eu cynorthwyo?
3. A oes gennych chi strategaeth cadw nyrsys?
4. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
5. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

| Wardiau Adran 25B | 2018/ 2019 | 2019/ 2019 | 2020/ 2019 |
|---|---|---|---|
| Wardiau Meddygol | 20 | 20 | 23 |
| Wardiau Llawfeddygol | 18 | 18 | 20 |

Mae nifer y wardiau Adran 25B wedi codi a gostwng yn ystod 2020/2021 wrth i'r wardiau hyn gael eu haddasu at ddibenion gwahanol i ofalu am gleifion â COVID-19. Ym mis Ebrill 2021, cofnodwyd bod 23 o wardiau meddygol ac 20 o wardiau llawfeddygol. Cofnodwyd ym mis Mai 2021 bod 18 o wardiau meddygol ac 11 o wardiau llawfeddygol.

Yn 2019 a 2020 nid oedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cydymffurfio ag Adran 25A Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gan nad oedd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn gallu cadarnhau'r holl sefydliadau nyrsio ar gyfer yr ardaloedd hyn gan nad ydynt yn cydymffurfio o hyd ag Adran 25(a) y Ddeddf gan nad yw'r gofynion proffesiynol a gwasanaeth yn bodloni'r amlen ariannol.[52] Mae hyn yn peri pryder gan y tynnwyd sylw at y mater hwn fel maes o bryder yn ein hadroddiad blaenorol ym mis Tachwedd 2019 hefyd.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Caerdydd a'r Fro y bwrdd iechyd yn ymwybodol o hyn, ar ôl tynnu sylw'r bwrdd ato dro ar ôl tro. Yn 2021, gofynnwyd i dîm rheoli'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl fynd i'r afael â bylchau yn y staff nyrsio a dyraniad ariannol ar wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy 2021/2022.

Ym mis Tachwedd 2021, nododd yr adroddiad cyfrifo chwe-misol:

mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol wedi gallu cadarnhau'r sefydliadau nyrsio ar gyfer pob ardal fel y niferoedd gweithio sy'n ofynnol i ofalu am gleifion yn sensitif. Er mwyn cydymffurfio yn llawn ag Adran 25A y Ddeddf, dylai pob ward sicrhau bod y gofyniad gwasanaeth a phroffesiynol wedi'i alinio â'r amlen ariannol. [53]

[52] https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-11-2020-board-public-meeting-pdf/

[53] https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2021-11-25-final-boardbook-v9-pdf1/

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cydnabod yn ddiweddarach bod bodloni'r 'amlen ariannol' yn dal i fod yn her i 12 o wardiau iechyd meddwl ac y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith i fodloni'r niferoedd a ariannwyd.[54]

Mae RCN Cymru yn bryderus am lefelau staffio ar wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl a'r effaith y gallai hyn ei chael ar staff presennol. Ysgrifennodd Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru, at Brif Swyddog Gweithredol Caerdydd a'r Fro ym mis Gorffennaf 2021 i fynegi pryder ac i ofyn am wybodaeth am sut roedd y bwrdd iechyd yn bwriadu sicrhau ei gydymffurfiad.

Yn 2018/2019 ac yn 2019/2020, cofnododd Caerdydd a'r Fro un digwyddiad o niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, ac un digwyddiad o gwymp yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth claf. Cofnododd y bwrdd iechyd ddau ddigwyddiad o gwympau yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth claf yn 2020/2021, ond dim niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol.

## Effaith COVID-19

Fe wnaeth COVID-19 herio gallu'r bwrdd iechyd i gynnal lefelau staff nyrsio. Addaswyd sawl ward at ddibenion gwahanol, neu cawsant eu symud yn ffisegol neu eu cau. Cyflwynwyd papurau eithriad i'r bwrdd ym mis Mai a mis Medi 2020 gyda gwybodaeth am newidiadau i staff nyrsio. Cafodd lefelau staffio eu monitro drwy'r Canolfannau Rheoli COVID-19 Lleol bedair gwaith y dydd yn anterth y pandemig.

Gwnaeth y bwrdd iechyd sylwadau ar straen COVID-19 ar lefelau staff nyrsio a nododd ei fod wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, a dull mwy amlddisgyblaeth, mwy o recriwtio, a nyrsys yn dychwelyd i ymarfer, ymhlith eraill i sicrhau bod wardiau wedi'u staffio yn briodol. Fodd bynnag, nododd y bu dibyniaeth sylweddol ar staff dros dro oherwydd cyfradd swyddi nyrsio gwag uchel ac effaith barhaus COVID-19.[55]

Cyflwynodd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ddull diwygiedig o gynnal y broses o graffu ar staff a oedd yn cynnwys creu'r Ganolfan Staff Nyrsio, sydd â Chyfarwyddwr Nyrsio yn goruchwylio staffio a cheisiadau staff. Roedd gwelliant hefyd i rota ar-alwad nyrsys uwch rhwng 16:00 a 20:00 i gynorthwyo'r trosglwyddiad o'r dydd i'r nos.

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae Caerdydd a'r Fro, fel llawer o fyrddau iechyd eraill, yn cydnabod mai un her sylweddol o ran bodoli Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yw ei analluedd i recriwtio a chadw staff nyrsio digonol. Mae hyn yn amlwg wrth edrych ar y gofrestr risg gorfforaethol. Cofnodwyd y risg o niwed i gleifion a/neu staff oherwydd diffyg cydymffurfiad â Deddf Staffio Cymru Gyfan ar y gofrestr risg ym mis Mawrth 2020. Cofnodwyd y risg i ddiogelwch cleifion yn achosi digwyddiadau difrifol gan nad yw cleifion yn cael eu derbyn i Adran Gofal Critigol yn brydlon oherwydd gweithlu nyrsio annigonol hefyd ym mis Tachwedd 2020 ac roedd dal wedi'i restru ym mis Gorffennaf 2021.

[54] https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2021-11-25-final-boardbook-v9-pdf1/

[55] https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2021-11-25-final-boardbook-v8-pdf/

Mae 'Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad - Adroddiad y Cadeirydd' yn nodi cyfradd swyddi gwag nyrsys fel canran i'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn rhoi golwg ar yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu nyrsio. Byddai'n ddefnyddiol, er hyn, pe byddai'r ffigwr swyddi gwag nyrsys FTE yn cael ei gyhoeddi yn rheolaidd. Ym mis Medi 2021, adroddodd Caerdydd a'r Fro ddiffyg nyrsys cofrestredig cyffredinol ar draws y bwrdd iechyd o 155 cyfwerth ag amser llawn. Nodwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant staff.

Yn ystod 2020/2021, llwyddodd Canolfan Gweithlu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol i recriwtio 100 o nyrsys cofrestredig a 290 o weithwyr cymorth gofal iechyd i'r gronfa. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad mwy o staff nyrsio dros dro am gost is na nyrsys asiantaeth neu y tu allan i gontract; fodd bynnag, nid yw'n ateb hirdymor i'r angen am niferoedd cynyddol staff nyrsio parhaol. Mae Caerdydd a'r Fro yn recriwtio yn weithredol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Recriwtiwyd deg ar hugain o nyrsys rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn debyg i Gwm Taf Morgannwg, er gwaethaf rhestru cadw staff fel mater sy'n peri pryder, prin iawn yw'r wybodaeth am yr hyn y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â chadw staff y tu hwnt i ymrwymiad eang i wahanol strategaethau cadw staff. Mae'n anegur hefyd beth mae'r Tîm Datblygu Gweithlu a Sefydliadol yn ei wneud i sefydlogi'r gweithlu nyrsio. Nid oes unrhyw wybodaeth ym mhapurau'r bwrdd am yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y strategaethau hyn ac nid oes unrhyw wybodaeth am ba un a yw'r strategaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

1. A yw eich gwerthusiad o swyddogaethau cymorth nyrsio wedi ystyried eu heffaith ar effeithiolrwydd nyrsys cofrestredig?
2. A yw eich mentrau cadw nyrsys wedi cael eu gwerthuso?
3. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
4. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

| Wardiau Adran 25B | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|
| **Meddygol** | | | |
| Uchaf | 19 | 19 | 17 |
| Isaf | 19 | 18 | 14 |
| **Llawfeddygol** | | | |
| Uchaf | 13 | 12 | 11 |
| Isaf | 12 | 12 | 5 |

Gall nifer y wardiau Adran 25B godi a gostwng oherwydd addasu wardiau ar ddibenion gwahanol. Yn 2018/2019 a 2019/2020, roedd nifer y wardiau Adran 25B yn sefydlog gydag ychydig iawn o newid. Yn ystod 2020/2021, gellir gweld effeithiau COVID-19 o'r nifer ansefydlog o wardiau.

Adroddodd Hywel Dda un gwymp yn arwain at niwed neu farwolaeth claf yn 2019/2020 lle ystyriwyd bod yr anallu i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol. Yn 2020/2021, cofnododd y bwrdd iechyd un niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, pedwar cwymp yn arwain at niwed neu farwolaeth claf ac wyth o gwynion am ofal nyrsio lle'r oedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol. Mae'r cynnydd i nifer y digwyddiadau a adroddwyd yn 2020/2021 yn dangos y pwysau sylweddol a oedd ar y bwrdd iechyd o ran cynnal lefelau staff nyrsio a'r niwed gwirioneddol iawn sy'n deillio o lefelau staff nyrsio isel.

Mae gan bob ward Adran 25B sy'n gofalu am 18 neu fwy o gleifion ail brif nyrs/rheolwr ward (Band 6). Mae hyn wedi cynyddu capasiti arweinyddiaeth yn sylweddol ar bob ward Adran 25B. Yn sgil hynny mae nifer y rheolwyr ward wedi cynyddu o 46.6 cyfwerth ag amser llawn (2018) i 62.7 (2020). Mae'r pwyslais ar arweinyddiaeth glinigol i'w groesawu yn fawr iawn. Mae arweinyddiaeth nyrsio glinigol yn hollbwysig i gynorthwyo timau nyrsio, i reoli ward, ac i sicrhau lefelau staff nyrsio priodol. Dylid rhannu profiad Hywel Dda gyda byrddau iechyd eraill.

Yn debyg i ganfyddiadau o bob bwrdd iechyd arall, adroddodd Hywel Dda ym mis Tachwedd 2021 y bu cynnydd i aciwtedd cleifion yn dilyn y cyfrifiadau Adran 25B chwe-misol. Ers 2019, bu gostyngiad i nifer y cleifion sy'n derbyn gofal (lefel 1) mater o drefn a gofal llwybrau (lefel 2), a chynnydd i gleifion sy'n derbyn gofal cymhleth, brys neu un i un.[56]

[56] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-25th-november-2021/agenda-and-papers-25th-november-2021/item-4-4-annual-presentation-of-nurse-staffing-levels-for-wards-covered-under-section-25b-of-the-nurse-staffing-levels-wales-act/

O ganlyniad i'r cynnydd i aciwtedd cleifion a gostyngiad i nifer y staff parhaol sy'n gweithio shifftiau hir, mae'r niferoedd nyrsys wedi newid. Nododd y bwrdd iechyd y bu gostyngiad o 10.91 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn ar wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt ac 1.49 ar wardiau pediatrig. Ymatebwyd i hyn trwy gynyddu nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd, rhai ohonynt yn Ymarferwyr Cynorthwyol - Nyrsio 48.44 cyfwerth ag amser llawn ar wardiau meddygol a llawfeddygol a 10.43 cyfwerth ag amser llawn ar wardiau pediatrig. Mae hyn wedi costio dros £1.3 miliwn i'r bwrdd iechyd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i hystyried yn rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig/proses cynllunio ariannol ar gyfer 2022/23.[57]

Mae'r RCN yn sylweddoli'r cyfnod aruthrol o anodd y mae staff nyrsio wedi bod drwyddo dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac nid yw'r gostyngiad i nifer y nyrsys sydd eisiau gweithio shifftiau hir yn syndod. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd i aciwtedd cleifion, dylid nodi na ellir disodli nyrsys cofrestredig gyda gweithwyr cymorth gofal iechyd yn y tymor hir; dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn darparu gwaith cynllunio gweithlu digonol i ganiatáu i nyrsys leihau eu shifftiau i 'shifftiau byrrach' tra hefyd yn darparu digon o nyrsys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

## Effaith COVID-19

Yn ystod pandemig COVID-19, mae Hywel Dda wedi dweud y dibynnwyd yn sylweddol ar grebwyll proffesiynol arweinwyr nyrsio ar draws y bwrdd iechyd yn y sefyllfaoedd gweithredu sy'n esblygu yn barhaus a wynebwyd.[58]

Rhwng Mawrth 2020 a Mehefin 2020, addaswyd 12 o wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B ar ddibenion gwahanol fel wardiau COVID-19 newydd.[59] Addaswyd tair ward arall at ddibenion gwahanol yn ystod yr ail don (Tachwedd 2020 i Chwefror 2021), ac addaswyd dwy arall yn ystod 'rhywfaint' o'r ail don.[60] Addaswyd cyfanswm o 17 o wardiau ar ddibenion gwahanol fel wardiau COVID-19 newydd yn ystod y pandemig.

Yn debyg i gamau a gymerwyd gan Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg, ceisiodd Hywel Dda leddfu'r pwysau ar nyrsys cofrestredig trwy ddirprwyo gwaith priodol i swyddi eraill, ac ymarferwyr cynorthwyol yn benodol. Hefyd, ehangwyd swyddi fel gweithwyr cymorth ward, swyddogion cyswllt teuluol, gweithwyr cymorth gweinyddol a chymorth fferyllol i gyd yn ystod pandemig COVID-19 ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Croesewir y math hwn o gymorth amlddisgyblaeth i'r tîm nyrsio yn fawr iawn gan yr RCN. Mae nyrsio yn swydd hynod arbenigol. Mae'n gwneud synnwyr sefydliadol i sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cyflawni swyddogaethau nyrsio mai nhw yn unig sy'n gallu eu gwneud. Gyda'r math hwn o gymorth ar waith, gall nyrsys gyflawni llawer mwy a bydd yn ddiddorol gweld mewn unrhyw werthusiad a oes effaith ar foddhad yn y swydd a hyd yn oed y gallu i gadw nyrsys cofrestredig.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dweud bod ymarferwyr cynorthwyol wedi cael eu nodi fel rheidrwydd yn y bwrdd iechyd i sicrhau gweithlu addas a chynaliadwy dros y flwyddyn ddiwethaf. O fis Medi 2021, roedd 50 o ymarferwyr cynorthwyol yn gweithio yn y bwrdd iechyd.[61] Mae ymarferwyr cynorthwyol yn rhan hanfodol o'r teulu nyrsio ac yn darparu

[57] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-25th-november-2021/agenda-and-papers-25th-november-2021/item-4-4-annual-presentation-of-nurse-staffing-levels-for-wards-covered-under-section-25b-of-the-nurse-staffing-levels-wales-act/

[58] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-27th-may-2021/27th-may-2021-documents/item-3-10-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-assurance-report-2020-21/

[59] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-27th-may-2021/27th-may-2021-documents/item-3-10-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-assurance-report-2020-21/

[60] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-year-2018-2021-statutory-report/

[61] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-year-2018-2021-statutory-report/

cymorth i nyrsys cofrestredig; fodd bynnag, mae angen i'r swyddi hyn gael eu goruchwylio yn glinigol gan nyrsys cofrestredig. Nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cymryd lle nyrsys cofrestredig. Mae'r dystiolaeth yn eglur iawn mai gwybodaeth, sgiliau a chrebwyll proffesiynol y nyrs gofrestredig mewn swyddogaeth oruchwylio sy'n gwneud gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau cleifion.

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae'r bwrdd iechyd yn ddibynnol ar weithlu dros dro er mwyn sicrhau lefelau staffio priodol a cheir defnydd sylweddol (cyfartaledd o 374 cyfwerth ag amser llawn yn wythnosol ar draws y bwrdd iechyd) o staff nyrsio cofrestredig dros dro, cronfa ac asiantaeth yn bennaf, â rhai oriau ychwanegol a goramser.[62]

Mae gan fwyafrif y wardiau Adran 25B gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag hirdymor sylweddol ac felly mae'r bwrdd iechyd yn gwneud cyflogi nyrsys cofrestredig a gyflenwir gan asiantaethau contract Cymru gyfan ar sail 'bloc'.[63] Mae hon wedi bod yn strategaeth hirsefydlog i gynnal lefelau staff nyrsio. 408 cyfwerth ag amser llawn yw'r gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag ar hyn o bryd.[64] Nid yw'r ddibyniaeth ar weithlu nyrsio dros dro yn gynaliadwy ac mae'n ddrud iawn. Mae Hywel Dda yn mynd i'r afael â'r gyfradd swyddi gwag trwy dîm recriwtio penodol ond mae'n cydnabod nad yw'r sefyllfa wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf er gwaethaf ymdrechion a wnaed gan ei dîm.[65]

Rydym yn falch iawn o adrodd, yn wahanol i fyrddau iechyd eraill, bod gan Hywel Dda bwyslais eglur ar gadw nyrsys. Mae'r bwrdd iechyd yn cynnig rhaglen tiwtoriaeth i nyrsys sydd newydd gymhwyso, a gychwynnwyd yn 2020/2021.[66] Mae rhaglen y Bum Mlynedd Gyntaf hefyd yn cynnig llwybr i nyrsys cofrestredig ddatblygu sylfaen gref i'w gyrfaoedd. Cydnabuwyd hefyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ei bod yn ymddangos bod meddwl am opsiynau amgen o ran oriau gweithio hyblyg yn hanfodol os yw Hywel Dda yn dymuno cadw staff profiadol a medrus.[67] Mae Hywel Dda hefyd yn canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth yn y proffesiwn nyrsio fel ffordd o gadw staff. Yn 2019, sefydlodd y bwrdd iechyd raglen arweinyddiaeth glinigol o'r enw STAR. Mae'r rhaglen ar ei thrydedd garfan o gyfranogwyr, ac mae'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y gorffennol wedi dweud bod effaith y rhaglen wedi bod yn rhagorol. Bydd yn ddefnyddiol gwybod yn y dyfodol a yw'r mentrau hyn yn dangos tystiolaeth o wneud gwahaniaeth i gyfraddau cadw nyrsys.

---

[62] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

[63] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

[64] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

[65] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

[66] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

[67] https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-30th-september-2021/agenda-and-papers-30th-september-2021/item-4-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-three-yearly-2018-2021-statutory-report/

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

1. Faint o'ch wardiau Adran 25B sydd â rheolwyr ward cwbl ychwanegol? Beth am yr holl wardiau?
2. Beth fu effaith eich rhaglen Llwybr i Broffesiynoldeb ar gadw staff? Pa fentrau cadw staff eraill sydd gennych chi a beth fu eu heffaith?
3. A ydych chi'n barod i ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl?

### Cynnydd o ran gweithredu

| Wardiau 25B | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|
| **Meddygol** | | | |
| Uchaf | 18 | 16 | 17 |
| Isaf | 12 | 15 | 15 |
| **Llawfeddygol** | | | |
| Uchaf | 21 | 14 | 12 |
| Isaf | 17 | 12 | 11 |

Daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i fodolaeth ym mis Ebrill 2019. Fe wnaeth hyn leihau nifer y wardiau Adran 25B ym Mae Abertawe ac yn sgil hynny cynyddu nifer y wardiau Adran 25B yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae hyn yn esbonio pam roedd gan Fae Abertawe 21 o wardiau llawfeddygol a oedd wedi'u cynnwys o dan Adran 25B tra bod ganddo 14 y flwyddyn ganlynol.

Ym mis Tachwedd 2019, adroddodd Bae Abertawe ganlyniadau'r arolwg 'Teulu a Ffrindiau' ar wardiau a oedd wedi'u cynnwys o dan Adran 25B yn y Ddeddf. Roedd lefel y gwelliant ers gweithredu'r Ddeddf wedi cynyddu o 83% i 96% a defnyddiodd llawer o ymatebwyr eiriau fel 'gofalgar', 'cyfeillgar' a 'pharch'.

Bu 11 o ddigwyddiadau o gwympau yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth ym Mae Abertawe lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor (2018/2019). Adroddwyd dwy gwymp yn 2019/2020. Yn 2020/2021, ni wnaeth y bwrdd iechyd adrodd unrhyw gwympau lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor.

Cafodd y bwrdd iechyd un gŵyn lle'r oedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol yn 2019/2020. Y flwyddyn ganlynol (2020/2021), adroddodd y bwrdd iechyd ddau gŵyn lle'r oedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol.

### Effaith COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, cyflwynwyd papur i'r bwrdd ym mis Mai 2020, o'r enw '*COVID19-Disruption to the Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016*'. Roedd yn nodi bod modelau newydd o ofal yn cael eu hystyried gan ganolbwyntio ar dimau amlddisgyblaeth/gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac amrywiaeth ehangach o weithwyr cymorth.[68] Fodd bynnag, nid yw'n eglur a yw 'gweithwyr cymorth' yn cyfeirio at weithwyr cymorth gofal iechyd yn gyffredinol, neu

[68] https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/may-2020-health-board/2-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-and-appendices-pdf/

gynorthwywyr neu weinyddwyr Band 4 cymwysedig fel clercod ward. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn rhan werthfawr o'r tîm nyrsio ac mae gwneud yn siŵr bod y swyddi hyn, gan gynnwys ymarferwyr cynorthwyol Band 4, yn bodoli, y penodir iddynt a'u bod yn cael eu cynorthwyo ar lefel ddigon uchel yn bwysig iawn. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cymryd lle nyrs gofrestredig. Mae'r dystiolaeth yn eglur iawn mai gwybodaeth, sgiliau a chrebwyll proffesiynol y nyrs gofrestredig mewn swyddogaeth oruchwylio sy'n gwneud y gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau cleifion.

Dynodwyd wyth o wardiau yn benodol fel wardiau COVID-19 a oedd yn derbyn cleifion COVID-19 o fewn eu harbenigeddau meddygol neu lawfeddygol. Addaswyd sawl ward Adran 25B at ddibenion gwahanol yn ystod y pandemig. Ar anterth y don gyntaf a'r ail don, sefydlodd y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion Gyfarfod Cell Logisteg Arian Staff Nyrsio i asesu risg, cefnogi a monitro lefelau staff nyrsio ar draws bob maes yn y bwrdd iechyd.

Cyflwynwyd Canolfan Hyfforddiant ac Addysg Gorfforaethol hefyd ym mis Mawrth 2021.[69] Nod hon oedd uwchsgilio nyrsys yn barod i'w hadleoli, cynorthwyo nyrsys cofrestredig a oedd yn dychwelyd i ymarfer, recriwtio myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn i swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd a symleiddio'r broses ymsefydlu.

### Cynaliadwyedd y gweithlu

Un o'r heriau mwyaf i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ôl Bae Abertawe yw'r diffyg nyrsys cofrestredig. Ar hyn o bryd, mae gan y bwrdd iechyd 261 o swyddi cyfwerth ag amser llawn gwag, gwelliant dros y tair i bum mlynedd diwethaf, ond serch hynny mae'n dal i fod yn sylweddol. Mewn ymateb i hyn un flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2021/22 yw datblygu strategaeth recriwtio a chadw gyda phwyslais ar gofrestrwyr newydd a datblygiad llwybr gyrfaol yn y dyfodol i weithwyr cymorth gofal iechyd.

Ym mis Mawrth 2020, dechreuodd y bwrdd iechyd raglen recriwtio rhyngwladol ddwy flynedd lwyddiannus i recriwtio 120 o nyrsys tramor. Fel gofyniad o ymuno â chofrestr barhaol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, mae'n ofynnol i nyrsys tramor gwblhau'r rhaglen Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE). Mae pob un o'r 120 o nyrsys a recriwtiwyd gan Fae Abertawe wedi pasio'r rhaglen.

Mae Bae Abertawe yn cydnabod yr angen i gadw staff medrus a phrofiadol. Mae'r bwrdd iechyd yn cynnig rhaglenni rheolaeth ac arweinyddiaeth mewnol a chymwysterau addysgol ffurfiol ym Mhrifysgol Abertawe trwy gontract addysg ôl-gofrestru. Sicrhawyd cyllid gan AaGIC hefyd i ddatblygu ymarferwyr uwch. Mae'r bwrdd iechyd yn cynnig cyfleoedd ymddeol hyblyg i annog nyrsys medrus a phrofiadol i barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr at nyrsio ym Mae Abertawe.

I annog nyrsys sydd newydd gymhwyso i aros yn y sefydliad, mae Bae Abertawe wedi sefydlu 'Llwybr i Broffesiynoldeb', lle maent yn cael eu cynorthwyo gan diwtoriaeth a goruchwyliaeth glinigol am y flwyddyn gyntaf. Mae hefyd wedi caniatáu swyddi cylchdro i nyrsys sydd newydd gymhwyso. Mae'r pwyslais ar gadw nyrsys sydd ar bob cam o'u gyrfaoedd yn y bwrdd iechyd yn cael ei groesawu yn fawr iawn gan yr RCN. Mae cadw sgiliau a gwybodaeth y gweithlu yn hanfodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.


---

[69] https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/audit-committee-papers/audit-committee-may-2021/3-2-appendix-1-swansea-bay-hbrr-board-apr-2021-final-pdf/


Fel y dangoswyd yn Hywel Dda, Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan, bu cynnydd i aciwtedd cleifion ym Mae Abertawe hefyd. Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd i aciwtedd cleifion ar un ward (Ward A). Mae'r graff yn dangos bod nifer y cleifion sydd angen gofal brys (oren) wedi cynyddu yn sylweddol, tra bod nifer y cleifion sydd angen llwybrau gofal (gwyrdd) wedi lleihau. Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau yn Hywel Dda.

Nododd Bae Abertawe y bu cynnydd i staff nyrsio ar Ward A o 4.45 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn a 5.45 o weithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser llawn ym Mae Abertawe yn ystod y cyfnod amser hwn.

Archwiliad Aciwtedd Gorffennaf 2020




Archwiliad Aciwtedd Mehefin 2021




O ganlyniad i'r cynnydd i aciwtedd, mae nifer y nyrsys cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd eu hangen i ddarparu gofal wedi cynyddu. Mae'r niferoedd nyrsio (nifer y staff nyrsio sydd eu hangen) wedi cynyddu o 617.41 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn ar wardiau Adran 25B ar draws Ysbytai Singleton a Threforys, i 651.1 (Tachwedd 2021). Mae nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd hefyd wedi cynyddu o 466.2 (Hydref 2021) i 531.5 (Tachwedd 2021).[70]

Nododd y bwrdd iechyd bod angen y newidiadau hyn i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio yn llawn â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.[71]

[70] https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/board-papers-november-2021/2-6-nurse-staffing-act-pdf/

[71] https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/board-papers-november-2021/2-6-nurse-staffing-act-pdf/

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Cwestiynau i'w gofyn i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**

1. Beth fu effaith sefydlu Grŵp Deddf Staff Nyrsio?
2. A oes gennych chi strategaeth cadw nyrsys?
3. Faint o swyddi nyrsys cofrestredig gwag sydd yn eich bwrdd iechyd?
4. Sut gallai Llywodraeth Cymru eich cefnogi chi wrth baratoi ar gyfer ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol?

### Cynnydd o ran gweithredu

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gwasanaethu cymuned wledig prin ei phoblogaeth. O ganlyniad, darperir mwyafrif y gwasanaethau yn lleol trwy ofal sylfaenol a chymunedol. Nid oes gan Bowys Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, yn hytrach mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu ysbytai cyfagos yng Nghymru a Lloegr i ddarparu gwasanaethau ysbyty i drigolion Powys.

O ganlyniad i'r ffaith nad oes ganddo Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, nid oes gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys unrhyw wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B. Fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd iechyd gydymffurfio ag Adran 25A y Ddeddf sy'n neilltuo cyfrifoldeb cyffredin i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddarparu lefelau staff nyrsio digonol ym mhob lleoliad, i ganiatáu amser i ofalu am gleifion yn sensitif.

Ar hyn o bryd, mae Powys yn comisiynu gwasanaethau gan wyth o ymddiriedolaethau GIG Lloegr. Mae Powys yn monitro lefelau staff nyrsio ym mhob un o'r wyth ymddiriedolaeth yn GIG Lloegr. Mae pob un o'r wyth wedi datblygu systemau gofal diogel a ddefnyddir ym mhob lleoliad cleifion mewnol i asesu a chofnodi aciwtedd cleifion, lefelau dibyniaeth a staffio hyblyg yn unol â hynny.[72]

Yn 2020, sefydlwyd Grŵp Deddf Staff Nyrsio yn y bwrdd iechyd.[73] Y nod oedd sicrhau mwy o gydgysylltu a goruchwyliaeth yn canolbwyntio ar wasanaethau a gomisiynir yng Nghymru, gwasanaethau a gomisiynir yn Lloegr, gan gynhyrchu data a gwybodaeth sy'n cynorthwyo i ddangos y lefel o gydymffurfiad mewn gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ac estyniad y Ddeddf.[74] Bydd hwn yn ased defnyddio o ran cydymffurfio ag Adran 25A y Ddeddf ac yn barod ar gyfer ymestyn Adran 25B i wasanaethau cymunedol. Mae Bwrdd Iechyd Powys yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau yn y gymuned. Trwy sefydlu Grŵp Staff Nyrsio i gasglu data a gwybodaeth bydd hyn yn paratoi Powys yn well ar gyfer gofynion Adran 25B gan y bydd y bwrdd iechyd yn deall maint anghenion cleifion a gofynion gweithlu.

---

[72] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-29-september-2021/board-agenda-pack-29-september-20211/

[73] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

[74] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymgymryd â nifer o weithgareddau i fonitro cynnydd gydag Adran 25A ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau arweinyddiaeth nyrsio gref, cyson, a gweledol ac adolygu lefelau staffio yn rheolaidd gan ddefnyddio crebwyll proffesiynol wedi'i driongli â'r metrigau nyrsio. Caiff dangosyddion ansawdd sensitif nyrsio hefyd eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, cwympau yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth, digwyddiadau byth yn gysylltiedig â meddyginiaeth a chwynion am ofal nyrsio yn arwain at niwed i gleifion.[75] Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau mewn ysbytai cymunedol ym Mhowys rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol.

## Effaith COVID-19

Yn ystod y pandemig, adolygodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yr holl staff nyrsio cofrestredig â sgiliau arbenigol, fel gofal critigol, gan ganiatáu i'r rhain gael eu hadleoli i ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos. Fodd bynnag, fe wnaeth y dull hwn greu heriau sylweddol yn gysylltiedig â sicrhau lefelau staffio priodol ym Mhowys. Archwiliwyd gwahanol ffyrdd o weithio i gynorthwyo ysbytai cyffredinol dosbarth, a oedd yn cynnwys gwella trosglwyddiadau adsefydlu; sicrhau cyllid Gofal Iechyd Parhaus i allu rhyddhau cleifion Powys i'w cartrefi eu hunain neu gartrefi gofal a chyfranogiad tîm amlddisgyblaeth/gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac amrywiaeth ehangach o weithwyr cymorth.[76]

Esboniodd Bwrdd Iechyd Powys ymhellach bod y gallu ganddo yn ystod y pandemig i uwchsgilio'r gweithlu nyrsio i allu darparu gofal arbenigol yng nghartrefi pobl, mewn cartrefi gofal ac mewn ysbytai cymunedol. Fe wnaeth hyn helpu i leihau pwysau ar ysbytai cyffredinol dosbarth.[77]

[75] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

[76] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

[77] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

## Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cynnwys y risg o fethu â chynnal cynnal gweithlu digonol ers mis Ionawr 2017, ac un rheswm allweddol am hyn yw natur wledig y bwrdd iechyd.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddioddef heriau recriwtio o ran y gweithlu nyrsio, ar ôl dweud bod diffyg swyddi nyrsys cofrestredig gwag o 33% ar draws wardiau (ar 31 Awst 2021), cynnydd o 13% ers mis Ionawr 2021.[78] Mae'r bwrdd iechyd yn dibynnu ar ddefnyddio nyrsio asiantaeth  a chronfa fel modd o sicrhau'r lefelau gofal diogel mewn lleoliadau cleifion mewnol. Mae'r uned staffio dros dro yn bodloni cyfartaledd o 28.7 o geisiadau am nyrsys cofrestredig ward cyfwerth ag amser llawn a 32.6 o weithwyr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser llawn y mis (Ebrill i Awst 2021).[79] Mae hwn yn opsiwn drud iawn i'r bwrdd iechyd.

Esboniodd y bwrdd iechyd ei fod yn gweithio yn rhan o'r Grŵp Staff Nyrsio Cenedlaethol i sicrhau datblygiad mwyaf posibl swyddi Band 4 fel ffordd o annog cyfleoedd ar gyfer tyfu a chadw staff yn ardal Powys. Fel y nodir yn yr ymateb i Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr, ni ddylai ehangu swyddi Band 4 gymryd lle recriwtio nyrsys cofrestredig yn weithredol. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd Band 4 yn gweithredu ar lefel uwch ac yn gymorth mawr i'r tîm nyrsio, ond mae angen i'r swyddi hyn gael eu goruchwylio yn glinigol gan nyrsys cofrestredig. Nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cymryd lle nyrsys cofrestredig. Mae'r dystiolaeth yn eglur iawn mai gwybodaeth, sgiliau a chrebwyll proffesiynol y nyrs gofrestredig mewn swyddogaeth oruchwylio sy'n gwneud y gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau cleifion.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi symleiddio prosesau recriwtio ar gyfer nyrsys cofrestredig, trwy gyhoeddi hysbysebion penagored a gwahoddiadau awtomatig i gyfweliad os bydd yr ymgeisydd yn darparu dogfennau cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.[80]

Nid oes unrhyw wybodaeth amlwg ym mhapurau bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys am yr hyn y mae'n ei wneud i gynyddu nifer y nyrsys cofrestredig sy'n cael eu cadw yn y bwrdd iechyd.

[78] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-24-november-2021/board-24-november-2021-agenda-pack/

[79] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-24-november-2021/board-24-november-2021-agenda-pack/

[80] https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-24-november-2021/board-24-november-2021-agenda-pack/

# RHESTR TALFYRIADAU

| | |
|---|---|
| **AaGIC** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| **AS** | Aelodau o'r Senedd |
| **BOSCE** | Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol |
| **RCN** | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| **BIPAB** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **BIPBC** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **BIPCAF** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **BIPCTM** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **BIPHDd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **BIAP** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **BIPBA** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

# ATODIAD


## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021, Deddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru 2016 Crynodeb Statudol o Adroddiadau Lefelau Staff Nyrsio, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

BIPAB, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Mai 2019, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-pdf-board-book-22-may-19/

BIPAB, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Tachwedd 2019, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/board-book-2711209-version-3-pdf

BIPAB, cofrestr risg Covid-19 feistr, Mai 2020, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/board-papers-20th-may-2020-v2-pdf/

BIPAB, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), Medi 2020, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-papers-23-september-2020-pdf/

BIPAB, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Rhagfyr 2020, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-16-december-2020-pdf/

BIPAB, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Mawrth 2021, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/governance-and-assurance/copy-of-risk-register-up-to-mar-2021-pdf/

BIPAB, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Mai 2021, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/aneurin-bevan-university-health-board-public-meeting-26-may-2021-v3-pdf/

Adroddiad tair blynedd BIPAB, anfonwyd at Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru, 28 Mehefin 2021.

BIPAB, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Tachwedd 2021, https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/public-board-meeting-24th-november-2021-pdf/

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Betsi Cadwaladr, Adroddiad Lefelau Staff Nyrsio Blynyddol, Mai 2019, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-health-board-2-5-19/

Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Tachwedd 2019, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-19-11-19-public-v2-0/

Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Mawrth 2020, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-17-03-20-public-v2-0/

Betsi Cadwaladr, Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio, Gorffennaf 2020, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-23-7-20-public-v1-0-pdf/

Betsi Cadwaladr, Lefelau Staff Nyrsio (Cymru): Wardiau Cleifion Mewnol Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion, Tachwedd 2020, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-12-11-20-public-v1-0-reduced-file-size-pdf/

Betsi Cadwaladr, Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio i'r Bwrdd, Mai 2021, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-20-5-21-v2-0-english-reduced-filesize-pdf/

Betsi Cadwaladr, Adroddiad Sicrwydd Tair Blynedd ar gydymffurfiad y Lefelau Staff Nyrsio, Mai 2021, https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-20-5-21-v2-0-english-reduced-filesize-pdf/

Betsi Cadwaladr, Cofrestr Risg Gorfforaethol y Pwyllgor Diogelwch a Phrofiadau, Gorffennaf 2021, Bwndel y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau 6 Gorffennaf 2021 (gig.cymru)

Betsi Cadwaladr, Lefelau Staff Nyrsio (Cymru): Wardiau Cleifion Mewnol Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion, Tachwedd 2021, Bwndel y Bwrdd Iechyd 18 Tachwedd 2021 (gig.cymru)

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Caerdydd a'r Fro, Adroddiad Blynyddol Staff Nyrsio, Mai 2019, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2019-20/01-30-05-2019-board-bundle-public-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion yn dilyn y Cyfrifiad Chwe-misol, Tachwedd 2019, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2019-20/05-28-11-2019-public-board-bundle-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Y Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion yn dilyn y Cyfrifiad Chwe-misol (i gynnwys cyfnod COVID 19), Mai 2020, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-05-2020-final-board-published-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Staff Nyrsio – Diweddariad, Gorffennaf 2020, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/30-07-2020-public-board-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Deddf Staff Nyrsio – Lefel Staff Nyrsio Iechyd Meddwl, Tachwedd 2020, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-11-2020-board-public-meeting-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Deddf Staff Nyrsio – Lefel Staff Nyrsio Iechyd Meddwl, Mai 2021, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/27-05-2021-public-board-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Gorffennaf 2021, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/board-papers-29-07-2021-v2-pdf/

Caerdydd a'r Fro, Adroddiad Sicrwydd Bwrdd Clinigol Meddyginiaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Medi 2021, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/quality-safety-and-patient-experience-committee-2021-22/2021-09-15-final-qse-papers-v2-pdf/

Adroddiad tair blynedd Caerdydd a'r Fro – anfonwyd at Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru, 7 Hydref 2021.

Caerdydd a'r Fro, Deddf Staff Nyrsio – Lefel Staff Nyrsio Iechyd Meddwl, Tachwedd 2021, https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2021-22/2021-11-25-final-boardbook-v9-pdf1/

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Deddf Staff Nyrsio (Cymru), Mai 2019, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2019-board-papers/30-may-2019/3-4-nurse-staffing-act-wales-ctmuhb-30-may-2019-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfiad â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), Medi 2020, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14b-appendix-a-annual-assurance-report-on-compliance-on-the-nurse-staffing-levels-wales-act-2019-2020-1-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Diweddaru'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016) ar gyfer Oedolion Acíwt yn Dilyn y Cyfrifiad Chwe-misol ym Mis Gorffennaf 2020, Tachwedd 2020, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/board-papers-2020/26-november-2020/6-2a-nurse-staffing-levels-wales-act-update-uhb-26-november-2020-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Cofrestr Risg Sefydliadol (risgiau â sgôr o 15 ac uwch), Mawrth 2021, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/25-march-2021/6-1b-appendix-1-organisational-risk-register-risks-rated-15-and-abo-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016) Mai 2021, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14e-appendix-d-annual-assurance-report-ctm-2020-2021-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad sicrwydd tair blynedd ar gydymffurfiad â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), Mai 2021, https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/27-may-2021/2-2-14a-nurse-staffing-three-yearly-report-uhb-27-may-2021-pdf/

Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Diweddaru'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016) ar gyfer Oedolion Acíwt yn Dilyn y Cyfrifiad Chwe-misol ym Mis Gorffennaf 2020, Tachwedd 2021 https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2021-board-papers/25-november-2021/5-8a-awnsa-report-uhb-25-november-2021-pdf/

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hywel Dda, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) – Adroddiad Blynyddol 2018/19, Mai 2019, https://www.webarchive.org.uk/wayback/en/archive/20200803040422mp_/http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/Item%205.11%20Nurse%20Staffing%20Levels%20%28Wales%29%20Act%20-%20Annual%20Report%202018-19.pdf

Hywel Dda, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau sy'n Ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Tachwedd 2019, https://www.webarchive.org.uk/wayback/en/archive/20191215135519mp_/http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/Item%207.1%20Annual%20Presentation%20of%20Nurse%20Staffing%20Levels%20Tachwedd%202019.pdf

Hywel Dda, Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio 2019/20, Mai 2020, https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2020/board-meetings-2020-documents/public-board-agenda-bundle-28-may-2020/#page=773

Hywel Dda, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau sy'n Ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Tachwedd 2020, https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2020/board-agenda-and-papers-26th-november-2020/26th-november-2020-documents/item-4-3-annual-presentation-of-nurse-staffing-levels-for-wards-covered-under-section-25b-of-the-nurse-staffing-levels-wales-act-2016/

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Hywel Dda, Adroddiad sicrwydd blynyddol tair blynedd ar gydymffurfiad 2018/21 Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, Ebrill 2021, https://hduhb.nhs.wales/about-us/governance-arrangements/statutory-committees/quality-safety-and-experience-assurance-committee-qseac/qseac/quality-safety-and-experience-assurance-committee-meeting-13-april-2021/item-3-2-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-assurance/

Hywel Dda, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau sy'n Ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Mai 2021, https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-27th-may-2021/27th-may-2021-documents/item-3-10-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-assurance-report-2020-21/

Hywel Dda, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Gorffennaf 2021, https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-29th-july-2021/agenda-and-papers-29th-july-2021/item-4-4-corporate-risk-register/

Hywel Dda, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer Wardiau sy'n Ddarostyngedig i Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Tachwedd 2021, https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2021/board-agenda-and-papers-25th-november-2021/agenda-and-papers-25th-november-2021/item-4-4-annual-presentation-of-nurse-staffing-levels-for-wards-covered-under-section-25b-of-the-nurse-staffing-levels-wales-act/

### Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Powys, Adolygiad Blynyddol o Staff Nyrsio, Mai 2019, https://www.webarchive.org.uk/wayback/en/archive/20200819212954/http://www.powysthb.wales.nhs.uk/board-meeting-29-may-2019

Powys, Adroddiad Blynyddol: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Medi 2020, https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-on-30-september-20201/board-30-september-2020-agenda-pack/

Powys, Adroddiad Blynyddol: Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Mai 2021 https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-26-may-2021/board-agenda-pack-26-may-2021/

Powys, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Gorffennaf 2021, https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-28-july-2021/board-28-july-2021-agenda-pack/

Powys, Adroddiad tair blynedd: Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Medi 2021, https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-29-september-2021/board-agenda-pack-29-september-20211/

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Bae Abertawe, Adroddiad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2018-19, Mai 2019, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/may-2018-board-papers/3-2-nurse-staffing-act-pdf/

Bae Abertawe, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) - Adolygiad chwe-misol, Tachwedd 2019, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/november-2019-health-board/3-5-nurse-staffing-levels-report-pdf/

Bae Abertawe, Ymyrraeth COVID19 ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Mai 2020, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/may-2020-health-board/2-6-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-and-appendices-pdf/

Bae Abertawe, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer wardiau sy'n ddarostyngedig i adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Tachwedd 2020, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/november-2020-health-board1/2-4-nurse-staffing-levels-wales-act-2016-report-pdf/

Bae Abertawe, Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 2020-21 ar gydymffurfiad â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Mai 2021, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/may-2021-health-board/2-5-nurse-staffing-act-pdf/

Bae Abertawe, Adroddiad rheoli risg, Gorffennaf 2021, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/july-2021-board-papers/2-2-health-board-risk-report-pdf/

Adroddiad tair blynedd Bae Abertawe, anfonwyd at Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru 6 Medi 2021.

Bae Abertawe, Cyflwyniad Blynyddol o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer wardiau sy'n ddarostyngedig i adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Tachwedd 2021, https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/board-papers-november-2021/2-6-nurse-staffing-act-pdf/

010 279